OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2010 Rhif 1433 (Cy.126)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith y Cyfarwyddebau canlynol–

(i) Cyfarwyddeb 2008/50/EC ar ansawdd aer amgylchynol ac aer glanach ar gyfer Ewrop. (Mae'r Gyfarwyddeb hon yn disodli Cyfarwyddeb y Cyngor 96/62/EC ar asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol, Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/30/EC sy'n ymwneud â gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, a mater gronynnol a phlwm mewn aer amgylchynol, Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/69/EC sy'n ymwneud â gwerthoedd terfyn ar gyfer bensen a charbon monocsid mewn aer amgylchynol, a Chyfarwyddeb y Cyngor 2002/3/EC sy'n ymwneud ag osôn mewn aer amgylchynol); a

(ii) Cyfarwyddeb 2004/107/EC sy'n ymwneud ag arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel a hydrocarbonau aromatig polysyclig mewn aer amgylchynol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007 (O.S. 2007/717 (Cy.63)) a ddirymir gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau'n ymdrin â diffiniadau ac yn dynodi Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod cymwys at ddibenion Cyfarwyddeb 2008/50/EC (ac eithrio at ddiben cydweithredu ag Aelod-wladwriaethau eraill a'r Comisiwn Ewropeaidd) ac at ddibenion

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2010 No. 1433 (W.126)

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## The Air Quality Standards (Wales) Regulations 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations implement the following Directives–

(i) Directive 2008/50/EC on ambient air quality and cleaner air for Europe. (This Directive replaces Council Directive 96/62/EC on ambient air quality assessment and management, Council Directive 1999/30/EC relating to limit values for sulphur dioxide, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, particulate matter and lead in ambient air, Council Directive 2000/69/EC relating to limit values for benzene and carbon monoxide in ambient air, and Council Directive 2002/3/EC relating to ozone in ambient air); and

(ii) Directive 2004/107/EC relating to arsenic, cadmium, mercury, nickel and polycyclic aromatic hydrocarbons in ambient air.

These Regulations replace the Air Quality Standards (Wales) Regulations 2007 (S.I. 2007/717 (W.63)), which are revoked by these Regulations.

These Regulations apply in relation to Wales.

Part 1 of the Regulations deals with definitions and designates the Welsh Ministers as the competent authority for the purposes of Directive 2008/50/EC (other than for the purpose of cooperation with other Member States and the European Commission) and for

Cyfarwyddeb 2004/107/EC. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru rannu Cymru'n barthau a chrynoadau at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau'n ymdrin ag asesu aer amgylchynol. Mae Pennod 1 yn ymwneud ag asesu sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, mater gronynnol, plwm, bensen a charbon monocsid, mae Pennod 2 yn ymwneud ag asesu osôn, ac mae Pennod 3 yn ymwneud ag asesu arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel, benso(a)pyren a hydrocarbonau aromatig polysyclig eraill.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwerthoedd terfyn, gwerthoedd targed, amcanion hirdymor, trothwyon gwybodaeth a rhybuddio a lefelau critigol ar gyfer y llygryddion uchod a osodir yn Atodlenni 1 i 5.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau'n gosod dyletswyddau ychwanegol ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r math ar fater gronynnol a elwir $PM_{2.5}$. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymwneud â chyrraedd y targed cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig ar gyfer $PM_{2.5}$ o ran lleihau cysylltiad ag ef ac â chydymffurfio â'r terfyn ar y dangosydd cysylltiad cyfartaleddog ar gyfer 2015.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau'n rhoi gofynion penodol ar Weinidogion Cymru i lunio cynlluniau ansawdd aer mewn perthynas â gwerthoedd terfyn a gwerthoedd targed, a chynlluniau gweithredu cyfnod byr mewn perthynas â throthwyon rhybuddio. Caniateir llunio hefyd gynlluniau gweithredu cyfnod byr mewn perthynas â gwerthoedd terfyn a gwerthoedd targed mewn amgylchiadau penodol.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau'n ymwneud â gwybodaeth gyhoeddus.

Mae Atodlenni 1 i 5 yn gosod gwerthoedd terfyn, gwerthoedd targed, amcanion hirdymor, trothwyon gwybodaeth a rhybuddio a lefelau critigol ar gyfer y llygryddion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt.

Mae Atodlen 6 yn pennu pa wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn cynlluniau ansawdd aer.

Mae Atodlen 7 yn pennu pa wybodaeth gyhoeddus sydd i'w darparu pan fydd trothwyon gwybodaeth yn cael eu croesi neu pan ragfynegir y byddant yn cael eu croesi.

Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at Atodiadau I i VI ac VIII i X ac at Adran B o Atodiad XV i Gyfarwyddeb 2008/50/EC ac at Adran II o Atodiad II ac Atodiadau III i V i Gyfarwyddeb 2004/107/EC i'w darllen fel pe baent yn gyfeiriadau at yr Atodiadau hynny a'r Adrannau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

the purposes of Directive 2004/107/EC. It also requires the Welsh Ministers to divide Wales into zones and agglomerations for the purposes of these Regulations.

Part 2 of the Regulations deals with the assessment of ambient air quality. Chapter 1 relates to the assessment of sulphur dioxide, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, particulate matter, lead, benzene and carbon monoxide, Chapter 2 relates to the assessment of ozone, and Chapter 3 relates to the assessment of arsenic, cadmium, mercury, nickel, benzo(a)pyrene and other polycyclic aromatic hydrocarbons.

Part 3 of the Regulations sets out the duties of the Welsh Ministers in relation to the limit values, target values, long-term objectives, information and alert thresholds and critical levels for the above pollutants which are set out in Schedules 1 to 5.

Part 4 of the Regulations sets out the Welsh Ministers' additional duties in relation to the type of particulate matter known as $PM_{2.5}$. These duties relate to the attainment of the national exposure reduction target for $PM_{2.5}$ in the United Kingdom and compliance with the limit on the average exposure indicator for 2015.

Part 5 of the Regulations imposes certain requirements on the Welsh Ministers to draw up air quality plans in relation to limit values and target values and short-term action plans in relation to alert thresholds. Short-term action plans may also be drawn up in relation to limit values and target values in certain circumstances.

Part 6 of the Regulations relates to public information.

Schedules 1 to 5 set out limit values, target values, long-term objectives, information and alert thresholds and critical levels for the pollutants to which these Regulations apply.

Schedule 6 sets out the information to be included in air quality plans.

Schedule 7 sets out the public information to be provided where information thresholds are exceeded or are predicted to be exceeded.

References in these Regulations to Annexes I to VI and VIII to X and Section B of Annex XV to Directive 2008/50/EC and to Section II of Annex II and Annexes III to V to Directive 2004/107/EC are to be read as references to those Annexes and those Sections as amended from time to time.

Mae asesiad effaith llawn o'r effaith y bydd yr offeryn hwn ac offerynnau cyfatebol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn ei chael ar gostau busnes a'r sector gwirfoddol ar gael gan: Rhaglen yr Atmosffer a'r Amgylchedd Lleol, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Ergon House, Horseferry Road, Llundain, SW1P 3JR.

A full impact assessment of the effect that this instrument and corresponding instruments in other parts of the United Kingdom will have on the costs of business and the voluntary sector is available from the Atmosphere and Local Environment Programme, Department for Environment, Food and Rural Affairs, Ergon House, Horseferry Road, London, SW1P 3JR.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1433 (Cy.126)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Mai 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *19 Mai 2010* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mehefin 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ei ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â chamau sy'n ymwneud ag asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol a chydymffurfedd â gwerthoedd terfyn, gwerthoedd targed ac amcanion ansawdd aer, ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru(**3**), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno(**4**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Atodiadau I i VI ac VIII i X ac Adran B o Atodiad XV i Gyfarwyddeb 2008/50/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ansawdd aer amgylchynol ac aer glanach ar gyfer Ewrop ac Adran II o Atodiad II ac Atodiadau III i V i Gyfarwyddeb 2004/107/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud ag arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel a hydrocarbonau aromatig polysyclig mewn aer amgylchynol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr Atodiadau hynny a'r Adrannau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(**1**) O.S. 2000/2812.

(**2**) 1972 p. 68.

(**3**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r dynodiad hwn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.

(**4**) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1433 (W.126)

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## The Air Quality Standards (Wales) Regulations 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *16 May 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *19 May 2010* |
| *Coming into force* | *11 June 2010* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the National Assembly for Wales by its designation(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to measures relating to the assessment and management of ambient air quality and compliance with air quality limit values, target values and objectives and now exercisable by the Welsh Ministers(**3**), and in exercise of the powers conferred by paragraph 1A of Schedule 2 to that Act(**4**), make the following Regulations.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to Annexes I to VI and VIII to X and Section B of Annex XV to Directive 2008/50/EC of the European Parliament and of the Council on ambient air quality and cleaner air for Europe and Section II of Annex II and Annexes III to V to Directive 2004/107/EC of the European Parliament and of the Council relating to arsenic, cadmium, mercury, nickel and polycyclic aromatic hydrocarbons in ambient air to be construed as references to those Annexes and those Sections as amended from time to time.

(**1**) S.I. 2000/2812.

(**2**) 1972 c. 68.

(**3**) By virtue of section 162 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32) and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to that Act, the powers conferred upon the National Assembly for Wales by this designation are now exercisable by the Welsh Ministers.

(**4**) Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51).

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 11 Mehefin 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diffiniadau**

**2**.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "aer amgylchynol" ("*ambient air*") yw aer y tu allan yn y troposffer, heb gynnwys gweithleoedd fel a ddiffinnir gan Gyfarwyddeb y Cyngor 89/654/EEC(**1**) lle y mae darpariaethau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith yn gymwys ac nad oes gan aelodau'r cyhoedd fynediad rheolaidd atynt;

ystyr "AOT 40" ("*AOT 40*") (wedi ei fynegi mewn ($\mu g/m^3$) . yr awr) yw swm y gwahaniaeth rhwng crynodiadau yn ôl yr awr sy'n fwy na 80 $\mu g/m^3$ (= 40 o rannau fesul biliwn) ac 80 $\mu g/m^3$ dros gyfnod penodol drwy ddefnyddio'n unig y gwerthoedd un awr wedi eu mesur rhwng 08:00 o'r gloch ac 20:00 o'r gloch Amser Ewropeaidd Canolog (CET) bob dydd;

ystyr "arsenig" ("*arsenic*"), "cadmiwm" ("*cadmium*"), "nicel" ("*nickel*") a "benso(a)pyren" ("benzo(a)pyrene") yw cyfanswm cynnwys yr elfennau a'r cyfansoddion hynny o fewn y ffracsiwn $PM_{10}$;

ystyr "asesu" ac "asesiad" ("*assessment*") yw asesu a wneir drwy gyfrwng mesuriadau sefydlog, mesuriadau dangosol, modelu neu dechnegau amcangyfrif gwrthrychol;

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/107/EC" ("*Directive 2004/107/EC*") yw Cyfarwyddeb 2004/107/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud ag arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel a hydrocarbonau aromatig polysyclig mewn aer amgylchynol(**2**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2008/50/EC" ("*Directive 2008/50/EC*") yw Cyfarwyddeb 2008/50/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ansawdd aer amgylchynol ac aer glanach ar gyfer Ewrop(**3**);

ystyr "cyfradd llwyr ddyddodiad" ("*total deposition rate*") yw cyfanswm màs llygryddion a

(**1**) OJ Rhif L 393, 30.12.89, t. 1, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2007/30/EC (OJ Rhif L 165, 27.6.07, t. 21).

(**2**) OJ Rhif L 23, 26.1.05, t.3, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 219/2009 (OJ Rhif L 87, 31.3.09, t. 109).

(**3**) OJ Rhif L 152, 11.6.08, t. 1.

## PART 1

### General

**Title, commencement and application**

**1**.–(1) The title of these Regulations is the Air Quality Standards (Wales) Regulations 2010 and they come into force on 11 June 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Definitions**

**2**.–(1) In these Regulations–

"ambient air" ("*aer amgylchynol*") means outdoor air in the troposphere, excluding workplaces as defined by Council Directive 89/654/EEC(**1**) where provisions concerning health and safety at work apply and to which members of the public do not have regular access;

"AOT 40" ("*AOT 40*") (expressed in ($\mu g/m^3$) · hours) means the sum of the difference between hourly concentrations greater than 80 $\mu g/m^3$ (= 40 parts per billion) and 80 $\mu g/m^3$ over a given period using only the one-hour values measured between 08:00 hours and 20:00 hours Central European Time (CET) each day;

"arsenic" ("*arsenig*"), "cadmium" ("*cadmiwm*"), "nickel" ("*nicel*") and "benzo(a)pyrene" ("*benso(a)pyren*") mean the total content of those elements and compounds within the $PM_{10}$ fraction;

"assessment" ("*asesu*", "*asesiad*") means assessment carried out by means of fixed measurements, indicative measurements, modelling or objective estimation techniques;

"Directive 2004/107/EC" ("*Cyfarwyddeb 2004/107/EC*") means Directive 2004/107/EC of the European Parliament and of the Council relating to arsenic, cadmium, mercury, nickel and polycyclic aromatic hydrocarbons in ambient air(**2**);

"Directive 2008/50/EC" ("*Cyfarwyddeb 2008/50/EC*") means Directive 2008/50/EC of the European Parliament and of the Council on ambient air quality and cleaner air for Europe(**3**);

"fixed measurements" ("*mesuriadau sefydlog*") means measurements taken at fixed locations, either continuously or by sampling from time to time, to determine levels of pollutants in

(**1**) OJ No L 393, 30.12.89, p. 1, amended by Directive 2007/30/EC (OJ No L 165, 27.6.07, p. 21).

(**2**) OJ No L 23, 26.1.05, p 3, last amended by Regulation (EC) No 219/2009 (OJ No L 87, 31.3.09, p. 109).

(**3**) OJ No L 152, 11.6.08, p 1.

drosglwyddir o'r atmosffer i arwynebau megis pridd, llystyfiant, dŵr ac adeiladau mewn ardal benodol o fewn amser penodol;

ystyr "ffin goddefiant" ("*margin of tolerance*") yw canran y gwerth terfyn a ganiateir i lefel fynd yn uwch na'r gwerth hwnnw mewn blwyddyn benodol;

ystyr "hydrocarbonau aromatig polysyclig" ("*polycyclic aromatic hydrocarbons*") yw'r cyfansoddion organig hynny sydd wedi eu cyfansoddi o ddau gylch aromatig o leiaf wedi ymasio ac wedi eu gwneud yn gyfan gwbl o garbon a hydrogen;

ystyr "llygrydd" ("*pollutant*") yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol–

(a) arsenig,

(b) bensen,

(c) benso(a)pyren neu hydrocarbonau aromatig polysyclig eraill,

(ch) cadmiwm,

(d) carbon monocsid,

(dd) plwm,

(e) mercwri,

(f) nicel,

(ff) nitrogen deuocsid,

(g) ocsidau nitrogen,

(ng) osôn,

(h) $PM_{10}$,

(i) $PM_{2.5}$,

(j) sylffwr deuocsid;

ystyr "mesuriadau dangosol" ("*indicative measurements*") yw mesuriadau sy'n bodloni amcanion ansawdd data sy'n llai llym na'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer mesuriadau sefydlog;

ystyr "mesuriadau sefydlog" ("*fixed measurements*") yw mesuriadau a wneir mewn lleoliadau sefydlog, naill ai'n barhaus neu drwy samplu o bryd i'w gilydd, er mwyn canfod lefelau llygryddion yn unol â'r amcanion ansawdd data perthnasol;

ystyr "ocsidau nitrogen" ("*oxides of nitrogen*") yw'r swm o gymhareb cymysgu cyfeintiau (ppbv) o nitrogen monocsid (nitrig ocsid) a nitrogen deuocsid a fynegir mewn unedau o grynodiad màs o nitrogen deuocsid ($\mu g/m^3$);

ystyr "$PM_{10}$" ("*$PM_{10}$*") yw mater gronynnol sy'n llwyddo i fynd drwy fewnfa dethol maint fel a ddiffinnir yn y dull cyfeirio ar gyfer samplu a mesur $PM_{10}$, EN 12341, gyda therfyn effeithlonrwydd o 50% pan fydd y diamedr erodynamig yn 10 μm; ac

accordance with the relevant data quality objectives;

"indicative measurements" ("*mesuriadau dangosol*") means measurements which meet data quality objectives that are less strict than those required for fixed measurements;

"margin of tolerance" ("*ffin goddefiant*") means the percentage of the limit value by which that value may be exceeded in a given year;

"oxides of nitrogen" ("*ocsidau nitrogen*") means the sum of the volume mixing ratio (ppbv) of nitrogen monoxide (nitric oxide) and nitrogen dioxide expressed in units of mass concentration of nitrogen dioxide ($\mu g/m^3$);

"$PM_{10}$" ("*$PM_{10}$*") means particulate matter which passes through a size-selective inlet as defined in the reference method for the sampling and measurement of $PM_{10}$, EN 12341, with a 50% efficiency cut-off at 10 μm aerodynamic diameter;

"$PM_{2.5}$" ("*$PM_{2.5}$*") means particulate matter which passes through a size-selective inlet as defined in the reference method for the sampling and measurement of $PM_{2.5}$, EN 14907, with a 50% efficiency cut-off at 2,5 μm aerodynamic diameter;

"pollutant" ("*llygrydd*") means any of the following–

(a) arsenic,

(b) benzene,

(c) benzo(a)pyrene or other polycyclic aromatic hydrocarbons,

(d) cadmium,

(e) carbon monoxide,

(f) lead,

(g) mercury,

(h) nickel,

(i) nitrogen dioxide,

(j) oxides of nitrogen,

(k) ozone,

(l) $PM_{10}$,

(m) $PM_{2.5}$,

(n) sulphur dioxide;

"polycyclic aromatic hydrocarbons" ("*hydrocarbonau aromatig polysyclig*") means those organic compounds composed of at least two fused aromatic rings made entirely from carbon and hydrogen; and

"total deposition rate" ("*cyfradd llwyr ddyddodiad*") means the total mass of pollutants which is transferred from the atmosphere to surfaces such as soil, vegetation, water and buildings in a given area within a given time.

ystyr "$PM_{2.5}$" ("*$PM_{2.5}$*") yw mater gronynnol sy'n llwyddo i fynd drwy fewnfa dethol maint fel a ddiffinnir yn y dull cyfeirio ar gyfer samplu a mesur $PM_{2.5}$, EN 14907, gyda therfyn effeithlonrwydd o 50% pan fydd y diamedr erodynamig yn 2,5 µm.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at Atodiadau I i VI ac VIII i X ac Adran B o Atodiad XV i Gyfarwyddeb 2008/50/EC ac i Adran II o Atodiad II ac Atodiadau III i V i Gyfarwyddeb 2004/107/EC yn gyfeiriadau at yr Atodiadau hynny a'r Adrannau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(2) References in these Regulations to Annexes I to VI and VIII to X and Section B of Annex XV to Directive 2008/50/EC and to Section II of Annex II and Annexes III to V to Directive 2004/107/EC are references to those Annexes and those Sections as amended from time to time.

**Dynodi awdurdod cymwys**

**3**. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi fel yr awdurdod cymwys at ddibenion Cyfarwyddeb 2008/50/EC (ac eithrio at y diben a bennir yn Erthygl 3(f) o'r Gyfarwyddeb honno) ac at ddibenion Cyfarwyddeb 2004/107/EC.

**Designation of competent authority**

**3**. The Welsh Ministers are designated as the competent authority for the purposes of Directive 2008/50/EC (other than for the purpose specified in Article 3(f) of that Directive) and for the purposes of Directive 2004/107/EC.

**Parthau a chrynoadau**

**4**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, at ddibenion y Rheoliadau hyn, rannu tiriogaeth Cymru'n barthau ac yn grynoadau.

(2) Bydd parth yn cael ei ddosbarthu'n grynhoad os yw'n gytref a chanddi boblogaeth o fwy na 250,000 o drigolion.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriadau at barth yn cynnwys parth sydd wedi ei ddosbarthu'n grynhoad.

**Zones and agglomerations**

**4**.–(1) The Welsh Ministers must, for the purposes of these Regulations, divide the territory of Wales into zones and agglomerations.

(2) A zone will be classified as an agglomeration if it is a conurbation with a population in excess of 250,000 inhabitants.

(3) In these Regulations references to a zone include a zone which has been classified as an agglomeration.

## RHAN 2

## Asesu ansawdd aer amgylchynol

### PENNOD 1

### Sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, plwm, bensen a charbon monocsid

**Trothwyon asesu**

**5**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddosbarthu pob parth yn ôl p'un a yw'r trothwyon asesu uwch neu is a bennir yn Adran A o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2008/50/EC wedi eu croesi ai peidio mewn perthynas â sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, plwm, bensen a charbon monocsid.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r dosbarthiad parthau ym mharagraff (1) bob pum mlynedd o leiaf, a rhaid gwneud hynny'n amlach na phob pum mlynedd os oes newidiadau sylweddol yn y gweithgareddau a allai effeithio ar lefelau'r llygryddion mewn aer amgylchynol, y cyfeirir atynt ym mharagraff (1).

## PART 2

## Assessment of ambient air quality

### CHAPTER 1

### Sulphur dioxide, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, lead, benzene and carbon monoxide

**Assessment thresholds**

**5**.–(1) The Welsh Ministers must classify each zone according to whether or not the upper or lower assessment thresholds specified in Section A of Annex II to Directive 2008/50/EC are exceeded in relation to sulphur dioxide, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, lead, benzene and carbon monoxide.

(2) The Welsh Ministers must review the classification of zones in paragraph (1) at least every five years, and must do so more frequently than every five years if there are significant changes in the activities which may affect levels of the pollutants referred to in paragraph (1) in ambient air.

(3) Pan fyddant yn adolygu'r dosbarthiad parthau yn unol â'r trothwyon asesu, rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio ag Adran B o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

(3) When reviewing the classification of zones in accordance with assessment thresholds, the Welsh Ministers must comply with Section B of Annex II to Directive 2008/50/EC.

**Gofynion asesu**

**6**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru asesu lefel y sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, plwm, bensen a charbon monocsid mewn aer amgylchynol ym mhob parth yn unol â pharagraffau (2) i (4) a'r meini prawf a osodir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

(2) Mewn parthau lle y mae lefel unrhyw lygrydd a grybwyllir ym mharagraff (1) wedi croesi'r trothwy asesu uwch ar gyfer y llygrydd hwnnw y cyfeirir ato yn rheoliad 5, rhaid defnyddio mesuriadau sefydlog mewn perthynas â'r llygrydd hwnnw, ond caniateir ychwanegu at y mesuriadau drwy wneud mesuriadau dangosol neu drwy fodelu neu'r naill ddull a'r llall er mwyn darparu digon o wybodaeth ar ddosbarthiad gofodol ansawdd aer amgylchynol.

(3) Mewn parthau lle y mae lefel unrhyw lygrydd a grybwyllir ym mharagraff (1) yn cyfateb i'r trothwy asesu uwch neu'r trothwy asesu is ar gyfer y llygrydd hwnnw y cyfeirir atynt yn rheoliad 5 neu'n dod rhwng y trothwyon hynny, rhaid defnyddio mesuriadau sefydlog mewn perthynas â'r llygrydd hwnnw, ond caniateir cyfuno hynny â gwneud mesuriadau dangosol neu â modelu neu â'r naill ddull a'r llall.

(4) Mewn parthau lle nad yw lefel unrhyw lygrydd a grybwyllir ym mharagraff (1) wedi cyrraedd y trothwy asesu is ar gyfer y llygrydd hwnnw y cyfeirir ato yn rheoliad 5, caniateir defnyddio techneg modelu neu dechneg amcangyfrif gwrthrychol neu'r naill a'r llall yn lle mesuriad mewn perthynas â'r llygrydd hwnnw.

(5) Os ychwanegir at fesuriadau sefydlog gan fodelu neu fesuriadau dangosol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ganlyniadau'r dulliau ychwanegol hynny pan fyddant yn gwneud yr asesiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(6) Yn ychwanegol at yr asesiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru fesur $PM_{2.5}$ mewn lleoliadau cefndir gwledig sydd i ffwrdd oddi wrth ffynonellau sylweddol o lygredd aer, er mwyn darparu gwybodaeth ar sail cyfartaledd blynyddol am gyfanswm crynodiad màs a chrynodiadau ffurfiant rhywogaethau cemegol o'r llygrydd hwnnw.

(7) At ddibenion paragraff (6), rhaid mesur yn unol â'r meini prawf a osodir yn Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2008/50/EC a rhaid eu cydgysylltu â strategaeth fonitro a rhaglen fesur y Rhaglen Gydweithredol ar gyfer Monitro a Gwerthuso Trosglwyddiad Hirbell Llygryddion Aer yn Ewrop (EMEP), pan fo hynny'n briodol.

**Assessment requirements**

**6**.–(1) The Welsh Ministers must assess the level of sulphur dioxide, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, lead, benzene and carbon monoxide in ambient air in each zone in accordance with paragraphs (2) to (4) and the criteria set out in Annex III to Directive 2008/50/EC.

(2) In zones where the level of any pollutant mentioned in paragraph (1) exceeds the upper assessment threshold for that pollutant referred to in regulation 5, fixed measurements must be used in relation to that pollutant, but may be supplemented by indicative measurements or modelling or both in order to provide adequate information on the spatial distribution of the ambient air quality.

(3) In zones where the level of any pollutant mentioned in paragraph (1) is at or between the upper and lower assessment thresholds for that pollutant referred to in regulation 5, fixed measurements must be used in relation to that pollutant but may be combined with indicative measurements or modelling or both.

(4) In zones where the level of any pollutant mentioned in paragraph (1) is below the lower assessment threshold for that pollutant referred to in regulation 5, modelling or objective estimation techniques or both may be used instead of measurement in relation to that pollutant.

(5) Where fixed measurements are supplemented by modelling or indicative measurements then the Welsh Ministers must take account of the results of those supplementary methods in carrying out the assessment referred to in paragraph (1).

(6) In addition to the assessment referred to in paragraph (1), the Welsh Ministers must measure $PM_{2.5}$ at rural background locations away from significant sources of air pollution, in order to provide information on an annual average basis on the total mass concentration and chemical speciation concentrations of that pollutant.

(7) For the purposes of paragraph (6), measurement must be carried out in accordance with the criteria set out in Annex IV to Directive 2008/50/EC and must be coordinated with the monitoring strategy and measurement programme of the Cooperative Programme for Monitoring and Evaluation of the Long-range Transmission of Air Pollutants in Europe (EMEP), where appropriate.

(8) Rhaid cymhwyso'r amcanion a'r gofynion ansawdd data a osodir yn Adrannau A ac C o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2008/50/EC wrth gyflawni'r asesiad a'r mesuriad y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (6).

(9) Ac eithrio fel a ddarperir ym mharagraff (10), rhaid gwneud mesuriadau o dan y rheoliad hwn yn unol â'r dulliau mesur sy'n ddulliau cyfeirio ac a bennir yn Adran A ac Adran C o Atodiad VI i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

(10) Caniateir defnyddio dulliau amgen i'r rhai y cyfeirir atynt ym mharagraff (9) ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau a osodir yn Adran B o Atodiad VI i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

(11) Yn y rheoliad hwn, ystyr "crynodiadau ffurfiant rhywogaethau cemegol" ("*chemical speciation concentrations*") yw crynodiadau o gydrannau neu rywogaethau cemegol gwahanol o $PM_{2.5}$.

**Lleoliad a nifer y pwyntiau samplu**

**7.**–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru osod pwyntiau samplu yn unol â'r meini prawf a osodir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2008/50/EC ar gyfer asesu sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, plwm, bensen a charbon monocsid.

(2) Mewn parthau lle'r unig ffynhonnell wybodaeth ar gyfer asesiad ansawdd aer mewn perthynas ag unrhyw lygrydd a grybwyllir ym mharagraff (1) yw mesuriadau sefydlog, rhaid i nifer y pwyntiau samplu ar gyfer y llygrydd hwnnw, at ddibenion asesu cydymffurfedd â throthwyon rhybuddio a gwerthoedd terfyn ar gyfer diogelu iechyd dynol, fod yn fwy na'r isafswm a bennir yn Adran A o Atodiad V i Gyfarwyddeb 2008/50/EC neu'n hafal iddo.

(3) Mewn parthau ac eithrio crynoadau lle'r unig ffynhonnell wybodaeth ar gyfer asesiad ansawdd aer mewn perthynas â sylffwr deuocsid neu ocsidau nitrogen yw mesuriadau sefydlog, rhaid i nifer y pwyntiau samplu ar gyfer y llygrydd hwnnw, at ddibenion asesu cydymffurfedd â lefelau critigol ar gyfer diogelu llystyfiant, fod yn fwy na'r isafswm a bennir yn Adran C o Atodiad V i Gyfarwyddeb 2008/50/EC neu'n hafal iddo.

(4) Mewn parthau lle yr ychwanegir at wybodaeth a geir yn sgil mesuriadau sefydlog gan wybodaeth a geir yn sgil modelu neu wneud mesuriadau dangosol neu'r naill ddull a'r llall–

(a) caniateir gostwng o hyd at 50% nifer y pwyntiau samplu a bennir yn Adran A o Atodiad V i Gyfarwyddeb 2008/50/EC ar yr amod bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni–

(i) bod y dulliau ychwanegol yn darparu digon o wybodaeth ar gyfer asesu ansawdd aer mewn perthynas â gwerthoedd terfyn a

(8) The data quality objectives and requirements set out in Sections A and C of Annex I to Directive 2008/50/EC must be applied in carrying out the assessment and measurement referred to in paragraphs (1) and (6).

(9) Save as provided for in paragraph (10), measurements under this regulation must be taken in accordance with the reference measurement methods specified in Section A and Section C of Annex VI to Directive 2008/50/EC.

(10) Alternative methods to those referred to in paragraph (9) may be used provided the conditions set out in Section B of Annex VI to Directive 2008/50/EC are complied with.

(11) In this regulation, "chemical speciation concentrations" ("*crynodiadau ffurfiant rhywogaethau cemegol*") means the concentrations of different chemical components or species of $PM_{2.5}$.

**Location and number of sampling points**

**7.**–(1) The Welsh Ministers must install sampling points in accordance with the criteria set out in Annex III to Directive 2008/50/EC for the assessment of sulphur dioxide, nitrogen dioxide and oxides of nitrogen, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, lead, benzene and carbon monoxide.

(2) In zones where fixed measurements are the sole source of information for the assessment of air quality in relation to any pollutant mentioned in paragraph (1), the number of sampling points for that pollutant must be greater than or equal to the minimum number specified in Section A of Annex V to Directive 2008/50/EC for the purpose of assessing compliance with alert thresholds and limit values for the protection of human health.

(3) In zones other than agglomerations where fixed measurements are the sole source of information for the assessment of air quality in relation to sulphur dioxide or oxides of nitrogen, the number of sampling points for that pollutant must be greater than or equal to the minimum number specified in Section C of Annex V to Directive 2008/50/EC for the purpose of assessing compliance with critical levels for the protection of vegetation.

(4) In zones where the information from fixed measurements is supplemented by information from modelling or indicative measurements or both–

(a) the number of sampling points specified in Section A of Annex V to Directive 2008/50/EC may be reduced by up to 50% provided that the following conditions are met–

(i) the supplementary methods provide sufficient information for the assessment of air quality in relation to limit values and

throthwyon rhybuddio,

(ii) bod y dulliau ychwanegol yn darparu digon o wybodaeth ar gyfer hysbysu'r cyhoedd ynghylch cyflwr ansawdd aer amgylchynol, a

(iii) bod nifer y pwyntiau samplu sydd i'w gosod a dosbarthiad technegau ychwanegol o ran eu lleoliad yn ddigonol ar gyfer canfod crynodiad o'r llygrydd perthnasol yn unol â'r amcanion ansawdd data a bennir yn Adran A o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2008/50/EC ac ar gyfer galluogi canlyniadau asesu i fodloni'r meini prawf yn Adran B o'r un Atodiad; a

(b) caniateir gostwng o hyd at 50% nifer y pwyntiau samplu a bennir yn Adran C o Atodiad V i Gyfarwyddeb 2008/50/EC ar yr amod y gellir canfod crynodiadau asesedig o'r llygrydd perthnasol yn unol â'r amcanion ansawdd data a bennir yn Adran A o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod o leiaf un pwynt samplu ar gyfer mesur $PM_{2.5}$ mewn lleoliadau cefndir gwledig.

alert thresholds,

(ii) the supplementary methods provide sufficient information to inform the public as to the state of ambient air quality, and

(iii) the number of sampling points to be installed and the spatial resolution of other techniques are sufficient for the concentration of the relevant pollutant to be established in accordance with the data quality objectives specified in Section A of Annex I to Directive 2008/50/EC and enable assessment results to meet the criteria in Section B of the same Annex; and

(b) the number of sampling points specified in Section C of Annex V to Directive 2008/50/EC may be reduced by up to 50% provided that the assessed concentrations of the relevant pollutant can be established in accordance with the data quality objectives specified in Section A of Annex I to Directive 2008/50/EC.

(5) The Welsh Ministers must install at least one sampling point for the measurement of $PM_{2.5}$ in rural background locations.

PENNOD 2

## Osôn

**Gofynion asesu**

**8**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru asesu lefel yr osôn mewn aer amgylchynol ym mhob parth.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau, at ddibenion paragraff (1), bod mesuriadau sefydlog yn cael eu gwneud mewn unrhyw barth lle y mae lefel yr osôn yn uwch na'r amcanion hirdymor a bennir yn Atodlen 3 yn ystod unrhyw un neu ragor o'r pum mlynedd cyn gwneud y mesuriadau hynny.

(3) Mewn unrhyw barth lle yr ychwanegir at fesuriadau sefydlog gan fodelu neu fesuriadau dangosol neu gan y naill ddull a'r llall, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ganlyniadau'r dulliau ychwanegol hynny at ddibenion paragraff (1).

(4) Rhaid cymhwyso'r amcanion a'r gofynion ansawdd data a osodir yn Adrannau A ac C o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2008/50/EC wrth gyflawni'r asesiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(5) Ac eithrio fel a ddarperir ym mharagraff (6), rhaid gwneud mesuriadau at ddibenion paragraff (1) yn unol â'r dulliau mesur sy'n ddulliau cyfeirio ac a bennir ym mhwynt 8 o Adran A o Atodiad VI i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

(6) Caniateir defnyddio dulliau amgen i'r rhai y

CHAPTER 2

## Ozone

**Assessment requirements**

**8**.–(1) The Welsh Ministers must assess the level of ozone in ambient air in each zone.

(2) The Welsh Ministers must ensure, for the purposes of paragraph (1), that fixed measurements are taken in any zone where the level of ozone has exceeded the long-term objectives specified in Schedule 3 during any of the five years preceding those measurements.

(3) In any zone where fixed measurements are supplemented by modelling or indicative measurements or both, the Welsh Ministers must take account of the results of those supplementary methods for the purposes of paragraph (1).

(4) The data quality objectives and requirements set out in Sections A and C of Annex I to Directive 2008/50/EC must be applied in carrying out the assessment referred to in paragraph (1).

(5) Save as provided in paragraph (6), measurements for the purposes of paragraph (1) must be taken in accordance with the reference measurement methods specified in point 8 of Section A of Annex VI to Directive 2008/50/EC.

(6) Alternative methods to those referred to in

cyfeirir atynt ym mharagraff (5) ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau a osodir yn Adran B o Atodiad VI i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

### Lleoliad a nifer y pwyntiau samplu

**9**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru osod pwyntiau samplu'n unol â'r meini prawf a osodir yn Atodiad VIII i Gyfarwyddeb 2008/50/EC ar gyfer asesu'r osôn.

(2) Mewn parthau lle'r unig ffynhonnell wybodaeth ar gyfer asesiad ansawdd aer yw mesuriadau sefydlog, rhaid i nifer y pwyntiau samplu fod yn fwy na'r isafswm a bennir yn Adran A o Atodiad IX i Gyfarwyddeb 2008/50/EC neu'n hafal iddo.

(3) Mewn parthau lle y mae lefel yr osôn wedi bod yn is na'r amcanion hirdymor ar gyfer pob un o fesuriadau'r pum mlynedd blaenorol, rhaid canfod nifer y pwyntiau samplu yn unol â'r meini prawf a osodir yn Adran B o Atodiad IX i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

(4) Mewn parthau lle yr ychwanegir at yr wybodaeth a geir yn sgil mesuriadau sefydlog gan wybodaeth a geir yn sgil modelu neu wneud mesuriadau dangosol neu yn sgil y naill ddull a'r llall, caniateir gostwng nifer y pwyntiau samplu y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) ar yr amod bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni–

(a) bod y dulliau ychwanegol yn darparu digon o wybodaeth ar gyfer asesu ansawdd aer mewn perthynas â gwerthoedd targed, amcanion hirdymor a throthwyon gwybodaeth a rhybuddio,

(b) bod nifer y pwyntiau samplu sydd i'w gosod a dosbarthiad dulliau ychwanegol o ran eu lleoliad yn ddigonol ar gyfer canfod lefel yr osôn yn unol â'r amcanion ansawdd data a osodir yn Adran A o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2008/50/EC ac ar gyfer galluogi canlyniadau asesu i fodloni'r meini prawf a bennir yn Adran B o'r un Atodiad,

(c) bod o leiaf un pwynt samplu ym mhob parth, gydag o leiaf un pwynt samplu fesul dwy filiwn o drigolion neu un pwynt samplu fesul 50,000 km2, pa un bynnag sy'n arwain at y nifer mwyaf o bwyntiau samplu, ac

(ch) bod nitrogen deuocsid yn cael ei fesur ym mhob pwynt samplu sydd ar ôl ac eithrio'r rhai sy'n orsafoedd cefndir gwledig.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod nitrogen deuocsid yn cael ei fesur mewn dim llai na 50% o'r pwyntiau samplu sy'n ofynnol o dan Adran A o Atodiad IX i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

(6) Rhaid i'r mesuriad y cyfeirir ato ym mharagraff (5) fod yn un parhaus ac eithrio mewn gorsafoedd cefndir gwledig.

(7) Yn y rheoliad hwn, mae i "gorsafoedd cefndir

paragraph (5) may be used provided the conditions set out in Section B of Annex VI to Directive 2008/50/EC are complied with.

### Location and number of sampling points

**9**.–(1) The Welsh Ministers must install sampling points in accordance with the criteria set out in Annex VIII to Directive 2008/50/EC for the assessment of ozone.

(2) In zones where fixed measurements are the sole source of information for the assessment of air quality, the number of sampling points must be greater than or equal to the minimum number specified in Section A of Annex IX to Directive 2008/50/EC.

(3) In zones where the level of ozone has been below the long-term objectives for each of the previous five years of measurement, the number of sampling points must be determined in accordance with the criteria set out in Section B of Annex IX to Directive 2008/50/EC.

(4) In zones where the information from fixed measurements is supplemented by information from modelling or indicative measurements or both, the number of sampling points referred to in paragraph (2) may be reduced provided that the following conditions are met–

(a) the supplementary methods provide sufficient information for the assessment of air quality in relation to target values, long-term objectives and information and alert thresholds,

(b) the number of sampling points to be installed and the spatial resolution of supplementary methods are sufficient for the level of ozone to be established in accordance with the data quality objectives set out in Section A of Annex I to Directive 2008/50/EC and to enable assessment results to meet the criteria specified in Section B of the same Annex,

(c) there is at least one sampling point in each zone, with a minimum of one sampling point per two million inhabitants or one sampling point per 50,000 km2, whichever produces the greater number of sampling points, and

(d) nitrogen dioxide is measured at all remaining sampling points except those that are rural background stations.

(5) The Welsh Ministers must ensure that nitrogen dioxide is measured at no less than 50% of the sampling points required under Section A of Annex IX to Directive 2008/50/EC.

(6) The measurement referred to in paragraph (5) must be continuous except at rural background stations.

(7) In this regulation, "rural background stations"

gwledig" yr ystyr a roddir i "*rural background stations*" gan Adran A o Atodiad VIII i Gyfarwyddeb 2008/50/EC.

("*gorsafoedd cefndir gwledig*") has the meaning given by Section A of Annex VIII to Directive 2008/50/EC.

PENNOD 3

## Arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel, benso(a)pyren a hydrocarbonau aromatig polysyclig eraill

CHAPTER 3

## Arsenic, cadmium, mercury, nickel, benzo(a)pyrene and other polycyclic aromatic hydrocarbons

**Trothwyon asesu**

**10**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddosbarthu pob parth yn ôl p'un a yw trothwyon asesu uwch neu is a bennir yn Adran I o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2004/107/EC yn cael eu croesi ai peidio mewn perthynas ag arsenig, cadmiwm, nicel a benso(a)pyren.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r dosbarthiad parthau ym mharagraff (1) o leiaf bob pum mlynedd, a rhaid gwneud hynny'n amlach na phob pum mlynedd os oes newidiadau sylweddol yn y gweithgareddau a allai effeithio ar lefelau'r llygryddion mewn aer amgylchynol y cyfeirir atynt ym mharagraff (1).

(3) Pan fyddant yn adolygu'r dosbarthiad parthau yn unol â'r trothwyon asesu, rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio ag Adran II o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2004/107/EC.

**Assessment thresholds**

**10**.–(1) The Welsh Ministers must classify each zone according to whether or not the upper or lower assessment thresholds specified in Section I of Annex II to Directive 2004/107/EC are exceeded in relation to arsenic, cadmium, nickel and benzo(a)pyrene.

(2) The Welsh Ministers must review the classification of zones in paragraph (1) at least every five years, and must do so more frequently than every five years if there are significant changes in the activities which may affect levels of the pollutants referred to in paragraph (1) in ambient air.

(3) When reviewing the classification of zones in accordance with assessment thresholds, the Welsh Ministers must comply with Section II of Annex II to Directive 2004/107/EC.

**Gofynion asesu**

**11**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru asesu lefel yr arsenig, y cadmiwm, y nicel a'r benso(a)pyren mewn aer amgylchynol ym mhob parth yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Mewn parthau lle y mae lefel unrhyw lygrydd a grybwyllir ym mharagraff (1) wedi croesi'r trothwy asesu uwch ar gyfer y llygrydd hwnnw y cyfeirir ato yn rheoliad 10, rhaid defnyddio mesuriadau sefydlog mewn perthynas â'r llygrydd hwnnw, ond caniateir ychwanegu at y mesuriadau drwy fodelu er mwyn darparu lefel ddigonol o wybodaeth ar ansawdd aer amgylchynol.

(3) Mewn parthau lle y mae lefel unrhyw lygrydd a grybwyllir ym mharagraff (1), dros gyfnod cynrychioliadol, yn dod rhwng y trothwy asesu uwch a'r trothwy asesu is ar gyfer y llygrydd hwnnw y cyfeirir ato yn rheoliad 10, rhaid defnyddio mesuriadau sefydlog mewn perthynas â'r llygrydd hwnnw, ond caniateir cyfuno hynny â mesuriadau dangosol fel y cyfeirir atynt yn Adran 1 o Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2004/107/EC neu â modelu, neu â'r naill ddull a'r llall.

(4) Mewn parthau lle nad yw lefel unrhyw lygrydd a grybwyllir ym mharagraff (1) wedi cyrraedd y trothwy asesu is ar gyfer y llygrydd hwnnw y cyfeirir ato yn rheoliad 10, caniateir defnyddio techneg modelu neu dechneg amcangyfrif gwrthrychol neu'r naill dechneg a'r llall yn lle mesuriad mewn perthynas â'r llygrydd hwnnw.

**Assessment requirements**

**11**.–(1) The Welsh Ministers must assess the level of arsenic, cadmium, nickel and benzo(a)pyrene in ambient air in each zone in accordance with paragraphs (2) to (4).

(2) In zones where the level of any pollutant mentioned in paragraph (1) exceeds the upper assessment threshold for that pollutant referred to in regulation 10, fixed measurements must be used in relation to that pollutant, but may be supplemented by modelling in order to provide an adequate level of information on ambient air quality.

(3) In zones where the level of any pollutant mentioned in paragraph (1) is between the upper and lower assessment thresholds for that pollutant referred to in regulation 10 over a representative period, fixed measurements must be used in relation to that pollutant but may be combined with indicative measurements as referred to in Section I of Annex IV to Directive 2004/107/EC or modelling, or both.

(4) In zones where the level of any pollutant mentioned in paragraph (1) is below the lower assessment threshold for that pollutant referred to in regulation 10, modelling or objective estimation techniques or both may be used instead of measurement in relation to that pollutant.

(5) Yn ychwanegol at yr asesiad y cyfeirir ato ym mharagraffau (1) i (4), rhaid i Weinidogion Cymru fonitro crynodiadau o hydrocarbonau aromatig polysyclig eraill yn ychwanegol at benso(a)pyren fel y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda i'w wneud, gan gynnwys o leiaf y canlynol–

(a) benso(a)anthrasen,

(b) benso(b)fflworanthen,

(c) benso(j)fflworanthen,

(ch) benso(k)fflworanthen,

(d) indeno(1,2,3-cd)pyren,

(dd) dibens(a,h)anthrasen.

(6) Yn ychwanegol at hyn, rhaid i Weinidogion Cymru weithredu pwyntiau samplu cefndir i ddarparu mesuriadau dangosol ar gyfer y canlynol–

(a) y crynodiadau o arsenig, cadmiwm, nicel, mercwri nwyol llwyr, benso(a)pyren a hydrocarbonau aromatig polysyclig eraill mewn aer amgylchynol y cyfeirir atynt ym mharagraff (5), a

(b) y cyfraddau llwyr ddyddodiad o arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel, benso(a)pyren a hydrocarbonau aromatig polysyclig eraill y cyfeirir atynt ym mharagraff (5).

(7) Rhaid cydgysylltu mesuriadau at ddibenion paragraff (6) gyda strategaeth fonitro a rhaglen fesur y Rhaglen Gydweithredol ar gyfer Monitro a Gwerthuso Trosglwyddiad Hirbell Llygryddion Aer yn Ewrop (EMEP), pan fo hynny'n briodol.

(8) Rhaid cymhwyso'r amcanion a'r gofynion ansawdd data a osodir yn Atodiad IV i Gyfarwyddeb 2004/107/EC wrth gyflawni'r asesiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1), (5) a (6).

(9) Rhaid i fesuriadau yn y rheoliad hwn gael eu gwneud yn unol â'r dulliau mesur sy'n ddulliau cyfeirio a bennir yn Atodiad V i Gyfarwyddeb 2004/107/EC.

(10) Yn y rheoliad hwn, ystyr "mercwri nwyol llwyr" ("*total gaseous mercury*") yw anwedd mercwri elfennaidd (Hg0) a mercwri nwyol adweithiol, sef rhywogaethau mercwri sy'n doddadwy mewn dŵr gyda phwysedd anweddol digon uchel iddynt fodoli yn y cyfnod nwyol.

**Lleoliad a nifer y pwyntiau samplu a'r safleoedd monitro**

**12**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru osod pwyntiau samplu yn unol â'r meini prawf a osodir yn Adrannau I, II a IV o Atodiad III i Gyfarwyddeb 2004/107/EC ar gyfer asesu arsenig, cadmiwm, nicel a benso(a)pyren.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod safleoedd monitro hydrocarbonau aromatig polysyclig ac eithrio benso(a)pyren–

(5) In addition to the assessment referred to in paragraphs (1) to (4), the Welsh Ministers must monitor concentrations of other relevant polycyclic aromatic hydrocarbons in addition to benzo(a)pyrene as the Welsh Ministers think fit, including at least the following–

(a) benzo(a)anthracene,

(b) benzo(b)fluoranthene,

(c) benzo(j)fluoranthene,

(d) benzo(k)fluoranthene,

(e) indeno(1,2,3-cd)pyrene,

(f) dibenz(a,h)anthracene.

(6) The Welsh Ministers must, in addition, operate background sampling points to provide indicative measurements of–

(a) the concentrations of arsenic, cadmium, nickel, total gaseous mercury, benzo(a)pyrene and the other polycyclic aromatic hydrocarbons referred to in paragraph (5) in ambient air, and

(b) the total deposition rates of arsenic, cadmium, mercury, nickel, benzo(a)pyrene and the other polycyclic aromatic hydrocarbons referred to in paragraph (5).

(7) Measurements for the purposes of paragraph (6) must be coordinated with the monitoring strategy and measurement programme of the Cooperative Programme for Monitoring and Evaluation of the Long-range Transmission of Air Pollutants in Europe (EMEP), where appropriate.

(8) The data quality objectives and requirements set out in Annex IV to Directive 2004/107/EC must be applied in carrying out the assessments referred to in paragraphs (1), (5) and (6).

(9) Measurements in this regulation must be taken in accordance with the reference measurement methods specified in Annex V to Directive 2004/107/EC.

(10) In this regulation, "total gaseous mercury" ("*mercwri nwyol llwyr*") means elemental mercury vapour (Hg0) and reactive gaseous mercury, being water-soluble mercury species with sufficiently high vapour pressure to exist in the gas phase.

**Location and number of sampling points and monitoring sites**

**12**.–(1) The Welsh Ministers must install sampling points in accordance with the criteria set out in Sections I, II and IV of Annex III to Directive 2004/107/EC for the assessment of arsenic, cadmium, nickel and benzo(a)pyrene.

(2) The Welsh Ministers must ensure that monitoring sites for polycylic aromatic hydrocarbons other than benzo(a)pyrene–

(a) wedi eu lleoli yn yr un lle â phwyntiau samplu benso(a)pyren,

(b) wedi eu lleoli'n unol â'r meini prawf a osodir yn Adrannau I i III o Atodiad III i Gyfarwyddeb 2004/107/EC, ac

(c) wedi eu dewis fel y gellir nodi amrywiadau daearyddol a thueddiadau hirdymor mewn crynodiadau o hydrocarbonau aromatig polysyclig.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau–

(a) bod o leiaf un pwynt samplu cefndir yn cael ei osod i ddarparu mesuriadau dangosol at ddibenion paragraff (6) o reoliad 11,

(b) bod y cyfryw bwyntiau samplu cefndir wedi eu lleoli'n unol â'r meini prawf a osodir yn Adrannau I i III o Atodiad III i Gyfarwyddeb 2004/107/EC, ac

(c) bod y cyfryw bwyntiau samplu cefndir wedi eu dewis fel y gellir nodi amrywiadau daearyddol a thueddiadau hirdymor mewn crynodiadau o'r llygryddion perthnasol ac yng nghyfraddau llwyr ddyddodiad y llygryddion perthnasol.

(a) are located together with sampling points for benzo(a)pyrene,

(b) are located in accordance with the criteria set out in Sections I to III of Annex III to Directive 2004/107/EC, and

(c) are selected so that geographical variations and long-term trends in the concentrations of polycyclic aromatic hydrocarbons can be identified.

(3) The Welsh Ministers must ensure that–

(a) at least one background sampling point is installed to provide indicative measurements for the purposes of paragraph (6) of regulation 11,

(b) such background sampling points are located in accordance with the criteria set out in Sections I to III of Annex III to Directive 2004/107/EC, and

(c) such background sampling points are selected so that geographical variations and long-term trends in the concentrations and total deposition rates of the relevant pollutants can be identified.

## RHAN 3

## Dyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gwerthoedd terfyn etc.

**Dyletswydd mewn perthynas â gwerthoedd terfyn**

**13**.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw lefelau sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, bensen, carbon monocsid, plwm, $PM_{10}$ a $PM_{2.5}$ yn uwch mewn unrhyw barth na'r gwerthoedd terfyn a osodir yn Atodlen 1.

(2) Os yw'r dyddiad ar gyfer cyrraedd y gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid yn cael ei ohirio mewn unrhyw barth yn unol â rheoliad 15(2), rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw lefel nitrogen deuocsid yn y parth hwnnw'n uwch o fwy na 50% na'r gwerth terfyn ar gyfer y llygrydd hwnnw a osodir yn Atodlen 1.

(3) Mewn parthau lle y mae lefel unrhyw lygrydd a grybwyllir ym mharagraff (1) yn is na'r gwerth terfyn a osodir yn Atodlen 1 ar gyfer y llygrydd hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod lefel y llygrydd hwnnw'n cael ei gadw'n is na'r gwerth terfyn a rhaid iddynt ymdrechu i gynnal ar gyfer ansawdd aer amgylchynol y safon orau sy'n cydweddu â datblygu cynaliadwy.

(4) Os hysbyswyd y Comisiwn, yn unol ag Erthygl 20 o Gyfarwyddeb 2008/50/EC, fod mynd yn uwch nag unrhyw werth terfyn a grybwyllir ym mharagraff (1) i'w briodoli i ffynonellau naturiol, nid yw'r

## PART 3

## Duties of Welsh Ministers in relation to limit values etc.

**Duty in relation to limit values**

**13**.–(1) Subject to paragraph (2), the Welsh Ministers must ensure that levels of sulphur dioxide, nitrogen dioxide, benzene, carbon monoxide, lead, $PM_{10}$ and $PM_{2.5}$ do not exceed the limit values set out in Schedule 1 in any zone.

(2) Where the date for achieving the limit values for nitrogen dioxide is postponed in any zone in accordance with regulation 15(2), the Welsh Ministers must ensure that the level of nitrogen dioxide in that zone does not exceed the limit value for that pollutant set out in Schedule 1 by more than 50%.

(3) In zones where the level of any pollutant mentioned in paragraph (1) is below the limit value set out in Schedule 1 for that pollutant, the Welsh Ministers must ensure that the level of that pollutant is maintained below that limit value and must endeavour to maintain the best ambient air quality compatible with sustainable development.

(4) Where the Commission has been informed, in accordance with Article 20 of Directive 2008/50/EC, that the exceedance of any limit value mentioned in paragraph (1) is attributable to natural sources, that

gormodiant hwnnw i'w ystyried yn ormodiant at ddibenion y Rheoliadau hyn.

### Dyletswydd mewn perthynas â gwerthoedd targed

**14**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod pob cam angenrheidiol nad yw'n arwain at gostau anghymesur yn cael ei gymryd i sicrhau nad yw lefelau $PM_{2.5}$, osôn, arsenig, cadmiwm, nicel a benso(a)pyren yn uwch mewn unrhyw barth na'r gwerthoedd targed yn Atodlen 2.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio rhestr o'r holl barthau lle y mae lefelau arsenig, cadmiwm, nicel neu benso(a)pyren yn is na'r gwerthoedd targed a osodir yn Atodlen 2 ar gyfer y llygryddion hynny.

(3) Mewn perthynas â pharthau a restrir o dan baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod lefel unrhyw lygrydd sy'n is na gwerth targed y llygrydd yn cael ei gadw'n is na'r gwerth targed hwnnw a rhaid iddynt ymdrechu i gynnal ar gyfer ansawdd aer amgylchynol y safon orau sy'n cydweddu â datblygu cynaliadwy.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio rhestr o'r holl barthau lle y mae lefelau arsenig, cadmiwm, nicel neu benso(a)pyren yn uwch na'r gwerthoedd targed ar eu cyfer.

(5) Mewn perthynas â pharthau a restrir o dan baragraff (4), rhaid i Weinidogion Cymru–

(a) nodi'r ardaloedd lle y mae lefelau'n uwch na'r gwerthoedd targed a'r ffynonellau sy'n cyfrannu at y gormodiannau hynny, a

(b) sicrhau bod y camau a gymerir yn unol â pharagraff (1) yn cael eu cyfeirio at y prif ffynonellau allyriad sydd wedi eu nodi a bod y camau hynny'n cymhwyso, os ydynt yn berthnasol, y technegau gorau sydd ar gael yn unol â Chyfarwyddeb 2008/1/EC(**1**).

(6) Mewn parthau lle y mae lefel yr osôn yn uwch na'r gwerth targed a osodir yn Atodlen 2 ar gyfer y llygrydd hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y rhaglen a baratowyd yn unol ag Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2001/81/EC yn cael ei gweithredu i gyrraedd y gwerth targed, oni bai mai dim ond drwy gamau a fyddai'n arwain at gostau anghymesur y gellir cyrraedd y gwerth hwn.

(7) Yn y rheoliad hwn–

ystyr "Cyfarwyddeb 2001/81/EC" ("*Directive 2001/81/EC*") yw Cyfarwyddeb 2001/81/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar derfyn uchaf allyriadau cenedlaethol ar gyfer llygryddion atmosfferig penodol(**2**); ac

(**1**) OJ Rhif L 24, 24.1.08, t.8, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2009/31/EC (OJ Rhif L 140, 5.6.09, t.114).

(**2**) OJ Rhif L 309, 27.11.09, t.22, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 219/2009 (OJ Rhif L 87, 31.3.09, t.109).

exceedance is not to be regarded as an exceedance for the purposes of these Regulations.

### Duty in relation to target values

**14**.–(1) The Welsh Ministers must ensure that all necessary measures not entailing disproportionate costs are taken to ensure that levels of $PM_{2.5}$, ozone, arsenic, cadmium, nickel and benzo(a)pyrene do not exceed the target values in Schedule 2 in any zone.

(2) The Welsh Ministers must draw up a list of all zones where the levels of arsenic, cadmium, nickel or benzo(a)pyrene are below the target values set out in Schedule 2 for those pollutants.

(3) In relation to zones listed under paragraph (2), the Welsh Ministers must ensure that the level of any pollutant that is below its target value is maintained below that target value and must endeavour to maintain the best ambient air quality compatible with sustainable development.

(4) The Welsh Ministers must draw up a list of all zones where the target values for arsenic, cadmium, nickel or benzo(a)pyrene are exceeded.

(5) In relation to zones listed under paragraph (4), the Welsh Ministers must–

(a) identify the areas where the target values are exceeded and the sources contributing to those exceedances; and

(b) ensure that the measures taken in accordance with paragraph (1) are directed at the predominant sources of emission which have been identified and that those measures apply, where relevant, the best available techniques in accordance with Directive 2008/1/EC(**1**).

(6) In zones where the level of ozone exceeds the target value set out in Schedule 2 for that pollutant, the Welsh Ministers must ensure that the programme prepared pursuant to Article 6 of Directive 2001/81/EC is implemented to attain the target value, unless this value cannot be achieved other than through measures that would entail disproportionate costs.

(7) In this regulation–

"Directive 2001/81/EC" ("*Cyfarwyddeb 2001/81/EC*") means Directive 2001/81/EC of the European Parliament and of the Council on national emission ceilings for certain atmospheric pollutants(**2**); and

(**1**) OJ No L 24, 24.1.08, p. 8, amended by Directive 2009/31/EC (OJ No L 140, 5.6.09, p. 114).

(**2**) OJ No L 309, 27.11.09, p. 22, last amended by Regulation (EC) No 219/2009 (OJ No L 87, 31.3.09, p. 109).

ystyr "Cyfarwyddeb 2008/1/EC" ("*Directive 2008/1/EC*") yw Cyfarwyddeb 2008/1/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddulliau integredig o atal a rheoli llygredd.

**Dyddiad cymhwyso gwerthoedd terfyn a gwerthoedd targed**

**15**.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), o ran gwerthoedd terfyn a gwerthoedd targed–

(a) maent yn gymwys o'r dyddiad a bennir ar gyfer pob gwerth terfyn neu werth targed sydd dan sylw yn Atodlenni 1 neu 2, neu

(b) maent yn gymwys pan fydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym, os na phennir dyddiad yn yr Atodlenni hynny.

(2) Os hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd, yn unol ag Erthygl 22 o Gyfarwyddeb 2008/50/EC, na ellir sicrhau cydymffurfedd â gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid, yn Atodlen 1 erbyn y dyddiad a bennir ym mharagraff (1) mewn parth neilltuol, caniateir gohirio dyddiad cyrraedd y gwerthoedd terfyn hynny yn y parth hwnnw am hyd at bum mlynedd ar y mwyaf, ar yr amod–

(a) bod Gweinidogion Cymru wedi paratoi cynllun ansawdd aer ar gyfer nitrogen deuocsid yn y parth y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn unol â rheoliad 20, ynghyd â'r wybodaeth a restrir yn Adran B o Atodiad XV i'r Gyfarwyddeb honno, a'u bod wedi dangos y sicrheir cydymffurfedd â'r gwerthoedd terfyn ar gyfer y llygrydd hwnnw yn y parth hwnnw cyn y dyddiad erbyn pryd y gohiriwyd cymhwyso'r gwerthoedd terfyn hynny, a

(b) nad yw'r Comisiwn wedi codi unrhyw wrthwynebiadau o dan Erthygl 22 o'r Gyfarwyddeb honno i ohirio cymhwyso'r gwerthoedd terfyn hynny tan y dyddiad hwyrach hwnnw.

**Dyletswydd mewn perthynas ag amcanion hirdymor ar gyfer osôn**

**16**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod pob cam angenrheidiol nad yw'n arwain at gostau anghymesur yn cael ei gymryd i gyflawni'r amcanion hirdymor ar gyfer osôn a osodir yn Atodlen 3 ym mhob parth.

(2) Rhaid i gamau a gymerir yn unol â pharagraff (1) fod yn gyson â'r rhaglen y cyfeirir ati ym mharagraff (6) o reoliad 14 a'r cynlluniau ansawdd aer a baratowyd yn unol â rheoliad 20.

(3) Mewn parthau lle y mae amcanion hirdymor ar gyfer osôn wedi eu cyflawni, rhaid i Weinidogion Cymru, i'r graddau y mae ffactorau sy'n cynnwys cyflyrau meteorolegol a natur drawsffiniol llygredd osôn yn caniatáu–

"Directive 2008/1/EC" ("*Cyfarwyddeb 2008/1/EC*") means Directive 2008/1/EC of the European Parliament and of the Council on integrated pollution prevention and control.

**Date of application for limit values and target values**

**15**.–(1) Subject to paragraph (2), limit values and target values apply–

(a) from the date specified for each limit value or target value concerned in Schedules 1 or 2, or

(b) when these Regulations come into force, if no date is specified in those Schedules.

(2) Where the European Commission has been notified, in accordance with Article 22 of Directive 2008/50/EC, that conformity with the limit values for nitrogen dioxide in Schedule 1 cannot be achieved by the date specified in paragraph (1) in a particular zone, the date for achieving those limit values in that zone may be postponed by a maximum of five years, provided that–

(a) the Welsh Ministers have prepared an air quality plan for nitrogen dioxide in the zone to which the notification relates in accordance with regulation 20, together with the information listed in Section B of Annex XV to that Directive, and have demonstrated that conformity with the limit values for that pollutant will be achieved in that zone before the date to which the application of those limit values has been postponed, and

(b) the Commission has raised no objections under Article 22 of that Directive to the postponement of the application of those limit values to that later date.

**Duty in relation to long-term objectives for ozone**

**16**.–(1) The Welsh Ministers must ensure that all necessary measures not entailing disproportionate costs are taken to attain the long-term objectives for ozone set out in Schedule 3 in each zone.

(2) Measures taken pursuant to paragraph (1) must be consistent with the programme referred to in paragraph (6) of regulation 14 and the air quality plans prepared in accordance with regulation 20.

(3) In zones where the long-term objectives for ozone have been attained, the Welsh Ministers must, insofar as factors including meteorological conditions and the transboundary nature of ozone pollution permit–

(a) sicrhau eu bod yn dal i gael eu cyflawni,

(b) cynnal ar gyfer ansawdd aer amgylchynol y safon orau sy'n cydweddu â datblygu cynaliadwy, ac

(c) cynnal safon uchel o ran diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl.

**Dyletswydd mewn perthynas â throthwyon gwybodaeth a rhybuddio ar gyfer diogelu iechyd pobl**

**17**. Os croesir unrhyw un neu ragor o'r trothwyon gwybodaeth neu rybuddio a osodir yn Atodlen 4 mewn unrhyw barth, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r cyhoedd drwy gyfrwng y radio, y teledu, y papurau newydd neu'r rhyngrwyd.

**Dyletswydd mewn perthynas â lefelau critigol ar gyfer diogelu llystyfiant**

**18**. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw'r lefelau'n uwch mewn unrhyw barth na'r lefelau critigol a osodir yn Atodlen 5.

## RHAN 4

## Lleihau'r cysylltiad â $PM_{2.5}$ yn genedlaethol

**Dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyfyngu ar y cysylltiad â $PM_{2.5}$**

**19**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod pob cam angenrheidiol nad yw'n arwain at gostau anghymesur yn cael ei gymryd i leihau'r cysylltiad â $PM_{2.5}$ gyda'r bwriad o gyrraedd y targed cenedlaethol ar gyfer lleihau cysylltiad erbyn 2020.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod pob cam priodol yn cael ei gymryd gyda'r bwriad o sicrhau nad yw'r dangosydd cysylltiad cyfartaleddog ar gyfer 2015 yn fwy na 20 µg/m³.

(3) Yn y rheoliad hwn–

ystyr "dangosydd cysylltiad cyfartaleddog" ("*average exposure indicator*") yw'r dangosydd ar gyfer $PM_{2.5}$ wedi ei gyfrifo gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â rheoliad 23 o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010(**1**); ac

ystyr "targed cenedlaethol ar gyfer lleihau cysylltiad" ("*national exposure reduction target*") yw'r targed ar gyfer $PM_{2.5}$ wedi ei ganfod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â rheoliad 24 o'r Rheoliadau hynny.

(**1**) O.S. 2010/1001.

(a) ensure that they continue to be met,

(b) maintain the best ambient air quality compatible with sustainable development, and

(c) maintain a high level of protection for the environment and human health.

**Duty in relation to information and alert thresholds for the protection of human health**

**17**. Where any of the information or alert thresholds set out in Schedule 4 are exceeded in any zone, the Welsh Ministers must inform the public by means of radio, television, newspapers or the internet.

**Duty in relation to critical levels for the protection of vegetation**

**18**. The Welsh Ministers must ensure that the critical levels set out in Schedule 5 are not exceeded in any zone.

## PART 4

## National exposure reduction for $PM_{2.5}$

**Duty of the Welsh Ministers to limit exposure to $PM_{2.5}$**

**19**.–(1) The Welsh Ministers must ensure that all necessary measures not entailing disproportionate costs are taken to reduce exposure to $PM_{2.5}$ with a view to attaining the national exposure reduction target by 2020.

(2) The Welsh Ministers must ensure that all appropriate measures are taken with a view to ensuring that the average exposure indicator for 2015 does not exceed 20 µg/m³.

(3) In this regulation–

"average exposure indicator" ("*dangosydd cysylltiad cyfartaleddog*") means the indicator for $PM_{2.5}$ calculated by the Secretary of State in accordance with regulation 23 of the Air Quality Standards Regulations 2010(**1**); and

"national exposure reduction target" ("*targed cenedlaethol ar gyfer lleihau cysylltiad*") means the target for $PM_{2.5}$ established by the Secretary of State in accordance with regulation 24 of those Regulations.

(**1**) S.I. 2010/1001.

## RHAN 5

## Cynlluniau

### Cynlluniau ansawdd aer

**20**.–(1) Os yw lefel sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, bensen, carbon monocsid, plwm neu $PM_{10}$ mewn aer amgylchynol yn uwch mewn unrhyw barth nag unrhyw un neu ragor o'r gwerthoedd terfyn yn Atodlen 1, neu os yw lefel $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yn uwch mewn unrhyw barth na'r gwerth targed perthnasol yn Atodlen 2, yna, yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru lunio a gweithredu cynllun ansawdd aer er mwyn cyrraedd y gwerth terfyn neu'r gwerth targed perthnasol yn y parth hwnnw.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi dynodi parthau lle y mae gwerthoedd yn uwch na'r gwerthoedd terfyn ar gyfer $PM_{10}$ oherwydd ail-ddaliant gronynnau yn sgil gwasgaru tywod neu halen yn y gaeaf, yn unol ag Erthygl 21 o Gyfarwyddeb 2008/50/EC, dim ond i'r graddau y mae gwerthoedd uwch na'r gwerthoedd terfyn hynny i'w priodoli i ffynonellau $PM_{10}$ ac eithrio gwasgaru tywod neu halen yn y gaeaf y mae dyletswydd Gweinidogion Cymru o dan baragraff (1) yn gymwys i'r parthau hynny.

(3) Os yw lefel yr osôn mewn aer amgylchynol yn uwch mewn unrhyw barth nag unrhyw un neu ragor o'r gwerthoedd targed ar gyfer osôn yn Atodlen 2, rhaid i Weinidogion Cymru, os yw'n briodol, lunio a gweithredu cynllun ansawdd aer i gyrraedd y gwerth targed perthnasol oni fyddai'r camau angenrheidiol ar gyfer cyrraedd y gwerth targed hwnnw'n arwain at gost anghymesur.

(4) Rhaid i gynllun ansawdd aer o dan baragraff (1) neu (3) gynnwys camau y bwriedir iddynt sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw werth terfyn perthnasol o fewn yr amser byrraf posibl.

(5) Os yw lefel $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol mewn unrhyw barth, ar unrhyw adeg cyn 31 Rhagfyr 2014, yn uwch na'r lefel a gyfrifwyd drwy gymhwyso'r ffin goddefiant ar gyfer y llygrydd hwnnw yn Atodlen 1 i'r gwerth terfyn perthnasol yn yr Atodlen honno, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a gweithredu cynllun ansawdd aer i gyrraedd y gwerth terfyn hwnnw yn y parth hwnnw.

(6) Rhaid i gynllun ansawdd aer gynnwys yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 6.

(7) Pan fo hynny'n bosibl, rhaid i gynllun ansawdd aer fod yn gyson â chynlluniau eraill a lunnir yn unol ag ymrwymiadau a osodir o dan–

(a) Cyfarwyddeb 2001/80/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfyngu ar allyriadau llygryddion penodol i'r aer o weithfeydd hylosgi mawr(**1**),

(**1**) OJ Rhif L 309, 27.11.01, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2009/31/EC (OJ Rhif L 140, 5.6.09, t.114).

## PART 5

## Plans

### Air quality plans

**20**.–(1) Where the level of sulphur dioxide, nitrogen dioxide, benzene, carbon monoxide, lead or $PM_{10}$ in ambient air exceeds any of the limit values in Schedule 1 in any zone, or where the level of $PM_{2.5}$ in ambient air exceeds the relevant target value in Schedule 2 in any zone, then, subject to paragraph (2), the Welsh Ministers must draw up and implement an air quality plan to achieve the relevant limit value or target value in that zone.

(2) Where the Welsh Ministers have designated zones within which limit values for $PM_{10}$ are exceeded due to the re-suspension of particulates following winter sanding or salting, in accordance with Article 21 of Directive 2008/50/EC, the Welsh Ministers' duty under paragraph (1) applies to those zones only in so far as the exceedances of those limit values are attributable to $PM_{10}$ sources other than winter sanding or salting.

(3) Where the level of ozone in ambient air exceeds any of the target values for ozone in Schedule 2 in any zone, the Welsh Ministers must, if appropriate, draw up and implement an air quality plan to achieve the relevant target value unless the measures necessary to achieve that target value would entail disproportionate cost.

(4) An air quality plan under paragraph (1) or (3) must include measures intended to ensure compliance with any relevant limit value within the shortest possible time.

(5) If, at any time before 31 December 2014, the level of $PM_{2.5}$ in ambient air in any zone exceeds the level calculated by applying the margin of tolerance for that pollutant in Schedule 1 to the relevant limit value in that Schedule, the Welsh Ministers must draw up and implement an air quality plan to achieve that limit value in that zone.

(6) An air quality plan must include the information listed in Schedule 6.

(7) Wherever possible, an air quality plan must be consistent with other plans drawn up in accordance with obligations imposed under–

(a) Directive 2001/80/EC of the European Parliament and of the Council on the limitation of emissions of certain pollutants into the air from large combustion plants(**1**),

(**1**) OJ No L 309, 27.11.01, p. 1, last amended by Directive 2009/31/EC (OJ No L 140, 5.6.09, p. 114).

(b) Cyfarwyddeb 2001/81/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar derfynau cenedlaethol uchaf ar allyriadau ar gyfer llygryddion atmosfferig penodol, a

(c) Cyfarwyddeb 2002/49/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar asesu a rheoli sŵn amgylcheddol(**1**).

(8) Os bydd cynllun ansawdd aer yn ofynnol mewn perthynas â mwy nag un llygrydd mewn unrhyw barth, rhaid i Weinidogion Cymru, pan fo hynny'n briodol, lunio a gweithredu cynllun integredig ar gyfer y parth hwnnw mewn perthynas â phob llygrydd o dan sylw.

**Cynlluniau gweithredu cyfnod byr**

**21**.–(1) Os oes risg y bydd y lefel o sylffwr deuocsid neu nitrogen deuocsid, mewn unrhyw barth, yn croesi un neu fwy o'r trothwyon rhybuddio a osodir yn Atodlen 4, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a gweithredu cynllun gweithredu cyfnod byr.

(2) Rhaid i gynllun gweithredu cyfnod byr osod y camau a fwriedir ar gyfer lleihau'r risg o groesi'r trothwyon rhybuddio, neu, os croesir y trothwyon hynny, ar gyfer cwtogi'r amser y pery'r digwyddiad.

(3) Os yw lefel yr osôn, mewn unrhyw barth, yn croesi'r trothwy rhybuddio a osodir yn Atodlen 4 neu os oes risg y bydd yn croesi'r trothwy hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a gweithredu cynllun gweithredu cyfnod byr gan roi sylw i Benderfyniad 2004/279/EC(**2**), os ydynt o'r farn ei bod yn rhesymol debygol ei bod yn bosibl lleihau'r risg sy'n deillio o'r cyfryw ddigwyddiad neu leddfu ei ddifrifoldeb neu gwtogi'r amser y mae'n para o ystyried cyflyrau daearyddol, meteorolegol ac economaidd.

(4) At ddibenion paragraff (3), rhaid i'r lefel groesi'r trothwy rhybuddio am dair awr o leiaf yn olynol neu mae'n rhaid rhagfynegi y bydd hynny'n digwydd.

(5) Caniateir llunio hefyd gynlluniau gweithredu cyfnod byr pan fo risg y bydd gwerthoedd yn uwch nag unrhyw un neu ragor o'r gwerthoedd terfyn neu'r gwerthoedd targed a osodir yn Atodlenni 1 a 2.

**Cyfranogiad y cyhoedd o ran llunio cynllun ansawdd aer a chynllun gweithredu cyfnod byr**

**22**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyhoedd pan fo Gweinidogion Cymru'n cynnig paratoi, addasu neu adolygu cynllun ansawdd aer neu gynllun gweithredu tymor byr.

(2) Os yw paragraff (1) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru–

(**1**) OJ Rhif L 189, 18.7.02, t.12, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1137/2008 (OJ Rhif L 311, 21.11.08, t.1).

(**2**) OJ Rhif L 87, 25.3.04, t.50

(b) Directive 2001/81/EC of the European Parliament and of the Council on national emission ceilings for certain atmospheric pollutants, and

(c) Directive 2002/49/EC of the European Parliament and of the Council on assessment and management of environmental noise(**1**).

(8) Where an air quality plan is required in relation to more than one pollutant in any zone, the Welsh Ministers must, where appropriate, draw up and implement an integrated plan for that zone in relation to all pollutants concerned.

**Short-term action plans**

**21**.–(1) Where, in any zone, there is a risk that the level of sulphur dioxide or nitrogen dioxide will exceed one or more of the alert thresholds set out in Schedule 4, the Welsh Ministers must draw up and implement a short-term action plan.

(2) A short-term action plan must set out the measures intended to reduce the risk of the alert thresholds being exceeded, or, in the event of those thresholds being exceeded, to reduce the duration of such an incident.

(3) Where, in any zone, the level of ozone exceeds the alert threshold set out in Schedule 4 or there is a risk that it will exceed that threshold, the Welsh Ministers must draw up and implement a short-term action plan taking into account Decision 2004/279/EC(**2**), if of the opinion that it is reasonably likely that the risk, severity or duration of such an incident can be reduced taking into account geographical, meteorological and economic conditions.

(4) For the purposes of paragraph (3), the level must exceed or be predicted to exceed the alert threshold for at least three consecutive hours.

(5) Short-term action plans may also be drawn up where there is a risk that any of the limit values or target values set out in Schedules 1 and 2 will be exceeded.

**Public participation in drawing up air quality and short-term action plans**

**22**.–(1) The Welsh Ministers must consult the public where the Welsh Ministers propose to prepare, modify or review an air quality plan or a short-term action plan.

(2) Where paragraph (1) applies, the Welsh Ministers must–

(**1**) OJ No L 189, 18.7.02, p. 12, last amended by Regulation (EC) No 1137/2008 (OJ No L 311, 21.11.08, p. 1).

(**2**) OJ No. L 87, 25.3.04, p. 50.

(a) hysbysu'r cyhoedd ynghylch y cynnig, ynghylch unrhyw wybodaeth gefndirol berthnasol ac ynghylch hawl y cyhoedd i gyfranogi yn y weithred o lunio'r cynllun,

(b) pennu ym mha fodd y gall y cyhoedd gyfranogi yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys rhoi cyfeiriad ar gyfer anfon ymatebion, ac amserlen resymol ar gyfer yr ymgynghoriad, ac

(c) rhoi sylw i ganlyniadau'r ymgynghoriad wrth lunio'r cynllun.

(3) Pan gyhoeddir y cynllun, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd am y rhesymau dros gynnwys y cynllun ynghyd â gwybodaeth ynghylch proses gyfranogi gan y cyhoedd sydd wedi ei chyflawni.

(a) inform the public as to the proposal, any relevant background information and the right of the public to participate in the drawing up of the plan,

(b) specify the means by which the public can participate in the consultation, including an address for responses, and a reasonable timescale for the consultation, and

(c) take account of the results of the consultation in drawing up the plan.

(3) When the plan is published, the Welsh Ministers must also provide information to the public as to the reasons for the contents of the plan together with information about the public participation process that has been carried out.

**RHAN 6**

## Gwybodaeth i'r cyhoedd

**Gwybodaeth i'r cyhoedd**

**23**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y canlynol ar gael i'r cyhoedd ac i sefydliadau priodol a chanddynt fuddiant–

(a) map yn nodi'r parthau a sefydlwyd o dan reoliad 4;

(b) gwybodaeth gyfredol, a roddir yn ddyddiol o leiaf, ac unwaith yr awr os yn bosibl, ar lefelau sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, $PM_{10}$, osôn, carbon monocsid ac, os yn bosibl, $PM_{2.5}$;

(c) gwybodaeth gyfredol ar lefelau bensen a phlwm, wedi ei chyflwyno ar ffurf cyfartaledd dros y deuddeng mis diwethaf, ac wedi ei diweddaru bob tri mis neu bob mis os yn bosibl;

(ch) gwybodaeth gyfredol o ran gohirio unrhyw ddyddiad erbyn pryd y mae gwerthoedd terfyn ar gyfer nitrogen deuocsid i'w cyrraedd yn unol â pharagraff (2) o reoliad 15;

(d) gwybodaeth gyfredol am achosion pan fo lefelau sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, bensen, plwm, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, carbon monocsid ac osôn yn uwch na'r gwerthoedd terfyn, gwerthoedd targed, neu'r amcanion hirdymor ar eu cyfer a osodir yn Atodlenni 1 i 3, ynghyd â'r rhesymau dros y cyfryw achosion a gwybodaeth briodol ynghylch effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd;

(dd) gwybodaeth gyfredol am achosion pan fo trothwyon rhybuddio neu wybodaeth sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac osôn a osodir yn Atodlen 4 wedi eu croesi mewn gwirionedd, neu pan ragfynegir y cânt eu croesi, ynghyd â'r rhesymau dros y cyfryw achosion a

**PART 6**

## Public information

**Public information**

**23**.–(1) The Welsh Ministers must make the following available to the public and appropriate interested organisations–

(a) a map identifying the zones established under regulation 4;

(b) up-to-date information given on at least a daily basis, and if possible on an hourly basis on levels of sulphur dioxide, nitrogen dioxide, $PM_{10}$, ozone, carbon monoxide and, if possible, $PM_{2.5}$;

(c) up-to-date information on levels of benzene and lead, presented as an average over the last twelve months, and updated every three months or if possible every month;

(d) up-to-date information as to any postponement of the date by which limit values for nitrogen dioxide are to be achieved pursuant to paragraph (2) of regulation 15;

(e) up-to-date information about cases where the limit values, target values or long-term objectives for sulphur dioxide, nitrogen dioxide, benzene, lead, $PM_{10}$, $PM_{2.5}$, carbon monoxide and ozone set out in Schedules 1 to 3 have been exceeded, together with the reasons for such cases and appropriate information regarding effects on health and the environment;

(f) up-to-date information about actual or predicted exceedances of the alert or information thresholds for sulphur dioxide, nitrogen dioxide and ozone set out in Schedule 4, together with the reasons for such cases and

gwybodaeth briodol ynghylch effeithiau ar iechyd;

(e) gwybodaeth gyfredol am achosion lle y mae lefelau ocsidau nitrogen a sylffwr deuocsid yn uwch na'r gwerthoedd critigol ar eu cyfer a osodir yn Atodlen 5, ynghyd â'r rhesymau dros y cyfryw achosion a gwybodaeth briodol ynghylch effeithiau ar yr amgylchedd;

(f) gwybodaeth gyfredol am grynodiadau o arsenig, cadmiwm, nicel, mercwri, benso(a)pyren a hydrocarbonau aromatig polysyclig eraill ac am gyfraddau llwyr ddyddodiad yr uchod;

(ff) gwybodaeth gyfredol am achosion pan fo lefelau arsenig, cadmiwm, nicel a benso(a)pyren yn uwch na'r gwerthoedd targed ar eu cyfer, ynghyd â rhesymau dros y cyfryw achosion, pa ardal sydd dan sylw, a gwybodaeth briodol ynghylch effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd;

(g) gwybodaeth am y camau a gymerwyd i gyrraedd y gwerthoedd targed ar gyfer arsenig, cadmiwm, nicel a benso(a)pyren;

(ng) cynlluniau ansawdd aer; a

(h) cynlluniau gweithredu cyfnod byr, ynghyd â chanlyniadau ymchwiliadau Gweinidogion Cymru i ddichonoldeb a chynnwys y cynlluniau hynny, a gwybodaeth am roi'r cynlluniau ar waith.

(2) Rhaid sicrhau bod yr wybodaeth ym mharagraff (1)(dd) ar gael yn unol ag Atodlen 7.

(3) Rhaid i wybodaeth gael ei dosbarthu'n ddi-dâl ac mewn dull clir a dealladwy drwy unrhyw gyfrwng y mae'n hawdd cael mynediad ato gan gynnwys y rhyngrwyd neu ddulliau telathrebu priodol eraill a chadw mewn cof ofynion Cyfarwyddeb 2007/2/EC Senedd Ewrop a'r Cygnor ar sefydlu seilwaith ar gyfer gwybodaeth ofodol yn y Gymuned Ewropeaidd(**1**).

(4) At ddibenion y Rhan hon, mae "cyrff a chanddynt fuddiant" yn cynnwys, yn benodol, cyrff amgylcheddol, cyrff defnyddwyr, cyrff sy'n cynrychioli poblogaethau sensitif, cyrff gofal iechyd perthnasol a ffederasiynau diwydiannol.

**Adroddiadau blynyddol**

**24**.–(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau blynyddol ynghylch pob llygrydd.

(2) Rhaid i adroddiadau blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol–

(a) manylion yr holl achosion pan fo lefelau llygryddion yn uwch na gwerthoedd terfyn, gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor ac wedi croesi'r trothwyon gwybodaeth a

(**1**) OJ Rhif L 108, 25.4.07, t.1.

appropriate information regarding effects on health;

(g) up-to-date information about cases where the critical values for oxides of nitrogen and sulphur dioxide set out in Schedule 5 have been exceeded, together with the reasons for such cases and appropriate information regarding effects on the environment;

(h) up-to-date information on concentrations and total deposition rates of arsenic, cadmium, nickel, mercury, benzo(a)pyrene and other polycyclic aromatic hydrocarbons;

(i) up-to-date information about cases where target values for arsenic, cadmium, nickel and benzo(a)pyrene have been exceeded, together with reasons for such cases, the area concerned, and appropriate information regarding effects on health and the environment;

(j) information on measures taken to achieve target values for arsenic, cadmium, nickel and benzo(a)pyrene;

(k) air quality plans; and

(l) short-term action plans, together with the results of the Welsh Ministers' investigations into the feasibility and content of those plans and information on their implementation.

(2) The information in paragraph (1)(f) must be made available in accordance with Schedule 7.

(3) Information must be distributed free of charge in a clear and comprehensible manner via any easily accessible media including the internet or other appropriate means of telecommunication and take into account the requirements of Directive 2007/2/EC of the European Parliament and of the Council on establishing an infrastructure for spatial information in the European Community(**1**).

(4) For the purposes of this Part, "interested organisations" includes, in particular, environmental organisations, consumer organisations, organisations representing sensitive populations, relevant healthcare bodies and industrial federations.

**Annual reports**

**24**.–(1) The Welsh Ministers must publish annual reports for all the pollutants.

(2) Annual reports must contain the following information–

(a) details of all cases where levels of pollutants have exceeded limit values, target values, long-term objectives and information and alert thresholds set out in Schedules 1 to 4 for the

(**1**) OJ No L 108, 25.4.07, p. 1.

rhybuddio a osodir yn Atodlenni 1 i 4 ar gyfer y cyfnodau cyfartaleddu priodol; a

(b) asesiad crynodol o effeithiau'r achosion hyn.

(3) Pan fo'n briodol, caniateir cynnwys mwy o wybodaeth mewn adroddiadau blynyddol, gan gynnwys asesiadau am ddiogelu coedwigoedd a gwybodaeth am ragsylweddion osôn a restrir yn Adran B o Atodiad X i Gyfarwyddeb 2008/50/EC fel sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru.

relevant averaging periods; and

(b) a summary assessment of the effects of these cases.

(3) Annual reports may contain further information where appropriate, including assessments on forest protection and information as to ozone precursor substances listed in Section B of Annex X to Directive 2008/50/EC as the Welsh Ministers think appropriate.

**RHAN 7**

## Dirymiadau

**Dirymiadau**

**25**. Dirymir Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007(**1**).

**PART 7**

## Revocations

**Revocations**

**25**. The Air Quality Standards (Wales) Regulations 2007(**1**) are revoked.

*Jane Davidson*

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

16 Mai 2010

Minister for Environment, Sustainability and Housing, one of the Welsh Ministers

16 May 2010

(**1**) O.S.2007/717 (Cy.63).

(**1**) S.I. 2007/717 (W.63).

## ATODLEN 1

Rheoliadau 13, 15, 20(1), (2), (4) a (5), 21(5), 23(1) a 24(2)

### Gwerthoedd terfyn

**Sylffwr deuocsid**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Un awr | 350 µg/m$^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef fwy na 24 o weithiau mewn blwyddyn galendr |
| Un diwrnod | 125 µg/m$^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef fwy na 3 gwaith mewn blwyddyn galendr |

**Nitrogen deuocsid**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Un awr na 18 o weithiau mewn blwyddyn galendr | 200 µg/m $^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef fwy |
| Blwyddyn galendr | 40 µg/m$^3$ |

**Bensen**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Blwyddyn galendr | 5 µg/m$^3$ |

**Carbon monocsid**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Y cymedr wyth awr dyddiol uchaf(**1**) | 10 mg/m$^3$ |

**Plwm**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Blwyddyn galendr | 0.5 µg/m$^3$ |

**$PM_{10}$**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Un diwrnod | 50 µg/m$^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef fwy na 35 o weithiau mewn blwyddyn galendr |
| Blwyddyn galendr | 40 µg/m$^3$ |

**$PM_{2.5}$**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Y ffin goddefiant* | *Y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn galendr | 25 µg/m$^3$ | 20% ar 11 Mehefin 2008, ac yn lleihau o ganrannau blynyddol hafal ar 1 Ionawr sy'n dilyn a phob 12 mis ar ôl hynny er mwyn cyrraedd 0% erbyn 1 Ionawr 2015 | 1 Ionawr 2015 |

(**1**) Rhaid dewis y crynodiad cymedrig wyth awr dyddiol uchaf o garbon monocsid drwy archwilio'r cyfartaleddau cyfredol wyth awr, wedi eu cyfrifo ar sail data fesul awr ac wedi eu diweddaru bob awr. Rhaid neilltuo pob cyfartaledd wyth awr a gyfrifir felly i'r diwrnod pryd y daw i ben, hynny yw, bydd y cyfnod cyfrifo cyntaf ar gyfer unrhyw un diwrnod yn ymestyn o 17:00 ar y diwrnod blaenorol hyd 01:00 ar y diwrnod hwnnw, a'r cyfnod cyfrifo diwethaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod rhwng 16:00 a 24:00 ar y diwrnod hwnnw.

## ATODLEN 2

Rheoliadau 14, 20(1) a (3), 21(5), 23(1) a 24(2)

### Gwerthoedd targed

**Arsenig, cadmiwm, nicel a benso(a)pyren**

| *Llygrydd* | *Gwerth targed ar gyfer y cyfanswm cynnwys yn y ffracsiwn PM10 ar gyfartaledd dros flwyddyn galendr* | *Y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|
| Arsenig | 6 $ng/m^3$ | 31 Rhagfyr 2012 |
| Cadmiwm | 5 $ng/m^3$ | 31 Rhagfyr 2012 |
| Nicel | 20 $ng/m^3$ | 31 Rhagfyr 2012 |
| Benso(a)pyren | 1 $ng/m^3$ | 31 Rhagfyr 2012 |

**Osôn**

| *Amcan* | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth targed* |
|---|---|---|
| Diogelu iechyd pobl | Y cymedr wyth awr dyddiol uchaf(**1**) | 120 $\mu g/m^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef ar fwy na 25 o ddiwrnodau fesul blwyddyn galendr ar gyfartaledd dros dair blynedd(**2**) |
| Diogelu llystyfiant | Mai i Orffennaf | AOT 40 (a gyfrifwyd o werthoedd 1 awr) ) 18,000 $\mu g/m^3$. awr ar gyfartaledd dros bum mlynedd(**2**) |

**$PM_{2.5}$**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth targed* |
|---|---|
| Blwyddyn galendr | 25 $\mu g/m^3$ |

(**1**) Rhaid dewis y crynodiad cymedrig wyth awr dyddiol uchaf drwy archwilio'r cyfartaleddau cyfredol wyth awr, wedi eu cyfrifo ar sail data fesul awr ac wedi eu diweddaru bob awr. Rhaid neilltuo pob cyfartaledd wyth awr a gyfrifir felly i'r diwrnod pryd y daw i ben, hynny yw, bydd y cyfnod cyfrifo cyntaf ar gyfer unrhyw un diwrnod yn ymestyn o 17:00 ar y diwrnod blaenorol hyd 01:00 ar y diwrnod hwnnw, a'r cyfnod cyfrifo diwethaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod rhwng 16:00 a 24:00 ar y diwrnod hwnnw.

(**2**) Os na ellir canfod y cyfartaleddau tair blynedd neu bum mlynedd ar sail set lawn ac olynol o ddata blynyddol, bydd yr isafswm data blynyddol sy'n ofynnol ar gyfer gwirio cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed yn ddata dilys am flwyddyn mewn perthynas â gwerth targed ar gyfer diogelu iechyd pobl ac yn ddata dilys am dair blynedd mewn perthynas â gwerth targed ar gyfer diogelu llystyfiant.

## ATODLEN 3

Rheoliadau 8(2), 16, 23(1), 24(2)

### Amcanion hirdymor ar gyfer osôn

| *Amcan* | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Amcan hirdymor* | *Y dyddiad erbyn pryd y dylid gwireddu amcan hirdymor* |
|---|---|---|---|
| Diogelu iechyd pobl | Y cymedr wyth awr dyddiol uchaf o fewn blwyddyn galendr | 120 µg/$m^3$ | Nis diffinnir |
| Diogelu llystyfiant | Mai i Orffennaf | AOT 40 (a gyfrifwyd o werthoedd 1 awr) 6000 µg/$m^3$. awr | Nis diffinnir |

## ATODLEN 4

Rheoliadau 17, 21(1) a (3), 23(1) a 24(2)

### Trothwyon gwybodaeth a rhybuddio

**Trothwyon rhybuddio ar gyfer sylffwr deuocsid a nitrogen deuocsid**

| *Llygrydd* | *Trothwy rhybuddio(**1**)* |
|---|---|
| Sylffwr deuocsid | 500 µg/$m^3$ |
| Nitrogen deuocsid | 400 µg/$m^3$ |

**Trothwyon gwybodaeth a rhybuddio ar gyfer osôn**

| *Diben* | *Cyfnod cyfartaleddu* | *Trothwy* |
|---|---|---|
| Gwybodaeth | 1 awr | 180 µg/$m^3$ |
| Rhybuddio | 1 awr | 240 µg/$m^3$ |

## ATODLEN 5

Rheoliadau 18 a 23(1)

### Lefelau critigol ar gyfer diogelu llystyfiant

**Sylffwr deuocsid**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Lefel gritigol* |
|---|---|
| Blwyddyn galendr a'r gaeaf (1 Hydref i 31 Mawrth) | 20 µg/$m^3$ |

**Ocsidau nitrogen**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Lefel gritigol* |
|---|---|
| Blwyddyn galendr | 30 µg/$m^3$ $NO_x$ |

(**1**) I'w fesur dros dair awr olynol mewn lleoliadau sy'n gynrychioliadol o ansawdd aer dros 100 $km^2$ o leiaf neu dros barth cyfan, pa un bynnag yw'r lleiaf.

## SCHEDULE 1

Regulations 13, 15, 20(1), (2), (4) and (5), 21(5), 23(1) and 24(2)

## Limit values

**Sulphur dioxide**

| *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|
| One hour | 350 µg/m³, not to be exceeded more than 24 times a calendar year |
| One day | 125 µg/m³, not to be exceeded more than 3 times a calendar year |

**Nitrogen dioxide**

| *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|
| One hour | 200 µg/m³, not to be exceeded more than 18 times a calendar year |
| Calendar year | 40 µg/m³ |

**Benzene**

| *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|
| Calendar year | 5 µg/m³ |

**Carbon monoxide**

| *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|
| Maximum daily eight hour mean(**1**) | 10 mg/m³ |

**Lead**

| *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|
| Calendar year | 0.5 µg/m³ |

**$PM_{10}$**

| *Averaging period* | *Limit value* |
|---|---|
| One day | 50 µg/m³, not to be exceeded more than 35 times a calendar year |
| Calendar year | 40 µg/m³ |

**$PM_{2.5}$**

| *Averaging period* | *Limit value* | *Margin of tolerance* | *Date by which limit value is to be met* |
|---|---|---|---|
| Calendar year | 25 µg/m³ | 20% on 11 June 2008, decreasing on the next 1 January and every 12 months thereafter by equal annual percentages to reach 0% by 1 January 2015 | 1 January 2015 |

(**1**) The maximum daily eight hour mean concentration of carbon monoxide must be selected by examining eight hour running averages, calculated from hourly data and updated each hour. Each eight hour average so calculated must be assigned to the day on which it ends, that is, the first calculation period for any one day will be from 17:00 on the previous day to 01:00 on that day, and the last calculation period for any one day will be the period from 16:00 to 24:00 on that day.

## SCHEULE 2

Regulations 14, 20(1) and (3), 21(5), 23(1) and, 24(2)

## Target values

**Arsenic, cadmium, nickel and benzo(a)pyrene**

| *Pollutant* | *Target value for the total content in the PM10 fraction averaged over a calendar year* | *Date by which target value should be met* |
|---|---|---|
| Arsenic | 6 ng/m³ | 31 December 2012 |
| Cadmium | 5 ng/m³ | 31 December 2012 |
| Nickel | 20 ng/m³ | 31 December 2012 |
| Benzo(a)pyrene | 1 ng/m³ | 31 December 2012 |

**Ozone**

| *Objective* | *Averaging period* | *Target value* |
|---|---|---|
| Protection of human health | Maximum daily eight hour mean(**1**) | 120 µg/m³, not to be exceeded on more than 25 days per calendar year averaged over three years(**2**) |
| Protection of vegetation | May to July | AOT 40 (calculated from 1h values) 18,000 µg/m³ · h averaged over five years(**2**) |

**$PM_{2.5}$**

| *Averaging period* | *Target value* |
|---|---|
| Calendar year | 25 µg/m³ |

(**1**) The maximum daily eight hour mean concentration must be selected by examining eight hour running averages, calculated from hourly data and updated each hour. Each eight hour average so calculated must be assigned to the day on which it ends, that is, the first calculation period for any one day will be the period from 17:00 on the previous day to 01:00 on that day, and the last calculation period for any one day must be the period from 16:00 to 24:00 on that day.

(**2**) If the three or five year averages cannot be determined on the basis of a full and consecutive set of annual data, the minimum annual data required for checking compliance with the target values will be valid data for one year in relation to the target value for the protection of human health and valid data for three years in relation to the target value for the protection of vegetation.

## SCHEDULE 3

Regulations 8(2), 16, 23(1), 24(2)

### Long-term objectives for ozone

| *Objective* | *Averaging period* | *Long-term objective* | *Date by which long-term objective should be met* |
|---|---|---|---|
| Protection of human health | Maximum daily eight hour mean within a calendar year | 120 µg/m³ | Not defined |
| Protection of vegetation | May to July | AOT 40 (calculated from 1h values) 6000 µg/m³ · h | Not defined |

## SCHEDULE 4

Regulations 17, 21(1) and (3), 23(1) and 24(2)

### Information and alert thresholds

**Alert thresholds for sulphur dioxide and nitrogen dioxide**

| *Pollutant* | *Alert threshold(**1**)* |
|---|---|
| Sulphur dioxide | 500 µg/m³ |
| Nitrogen dioxide | 400 µg/m³ |

**Information and alert thresholds for ozone**

| *Purpose* | *Averaging period* | *Threshold* |
|---|---|---|
| Information | 1 hour | 180 µg/m³ |
| Alert | 1 hour | 240 µg/m³ |

## SCHEDULE 5

Regulations 18 and 23(1)

### Critical levels for the protection of vegetation

**Sulphur dioxide**

| *Averaging period* | *Critical level* |
|---|---|
| Calendar year and winter (1 October to 31 March) | 20 µg/m³ |

**Oxides of nitrogen**

| *Averaging period* | *Critical level* |
|---|---|
| Calendar year | 30 µg/m³ $NO_x$ |

(**1**) To be measured over three consecutive hours at locations representative of air quality over at least 100 km² or an entire zone, whichever is smaller.

## ATODLEN 6

Rheoliad 20(6)

### Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn cynlluniau ansawdd aer

**1**. Lleoliad gormodiant o lygredd–

(a) rhanbarth;

(b) dinas (map); ac

(c) gorsaf fesur (map, cyfesurynnau daearyddol).

**2**. Gwybodaeth gyffredinol–

(a) math o barth (dinas, ardal ddiwydiannol neu ardal wledig)

(b) amcangyfrif o'r ardal lygredig (km²) a'r boblogaeth sy'n dod i gysylltiad â'r llygredd;

(c) data defnyddiol am yr hinsawdd;

(ch) data perthnasol am dopograffi; a

(d) gwybodaeth ddigonol am y math o dargedau y mae'n ofynnol eu diogelu yn y parth.

**3**. Awdurdodau cyfrifol (enwau a chyfeiriadau personau sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu cynlluniau ansawdd aer).

**4**. Natur y llygredd ac asesiad ohono–

(a) crynodiadau y sylwyd arnynt yn ystod blynyddoedd blaenorol (cyn gweithredu'r camau gwella);

(b) crynodiadau a fesurwyd ers dechrau'r prosiect; ac

(c) technegau a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu.

**5**. Tarddiad llygredd–

(a) rhestr o brif ffynonellau'r allyriad sy'n gyfrifol am y llygredd (map);

(b) cyfanswm yr allyriadau o'r ffynonellau hyn (tunelli'r flwyddyn); ac

(c) gwybodaeth am lygredd a fewnforiwyd o ranbarthau eraill.

**6**. Dadansoddi'r sefyllfa–

(a) manylion y ffactorau hynny sy'n gyfrifol am lefelau uwch na'r gwerth terfyn neu'r gwerth targed; a

(b) manylion y camau posibl ar gyfer gwella ansawdd aer.

**7**. Manylion y camau neu'r prosiectau hynny ar gyfer gwella a oedd yn bodoli cyn 11 Mehefin 2008–

(a) camau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol; a

(b) effeithiau'r camau y sylwyd arnynt.

**8**. Manylion y camau neu'r prosiectau hynny a fabwysiadwyd gyda'r bwriad o ostwng llygredd ar ôl 11 Mehefin 2008–

## SCHEDULE 6

Regulation 20(6)

### Information to be included in air quality plans

**1**. Location of excess pollution–

(a) region;

(b) city (map); and

(c) measuring station (map, geographical co-ordinates).

**2**. General information–

(a) type of zone (city, industrial or rural area);

(b) estimate of the polluted area (km²) and of the population exposed to the pollution;

(c) useful climatic data;

(d) relevant data on topography; and

(e) sufficient information on the type of targets requiring protection in the zone.

**3**. Responsible authorities (names and addresses of persons responsible for the development and implementation of air quality plans).

**4**. Nature and assessment of pollution–

(a) concentrations observed over previous years (before the implementation of the improvement measures);

(b) concentrations measured since the beginning of the project; and

(c) techniques used for the assessment.

**5**. Origin of pollution–

(a) list of the main emission sources responsible for the pollution (map);

(b) total quantity of emissions from these sources (tonnes per year); and

(c) information on pollution imported from other regions.

**6**. Analysis of the situation–

(a) details of those factors responsible for the exceedance of the limit value or target value; and

(b) details of possible measures for the improvement of air quality.

**7**. Details of those measures or projects for improvement which existed prior to 11 June 2008–

(a) local, regional, national and international measures; and

(b) observed effects of those measures.

**8**. Details of those measures or projects adopted with a view to reducing pollution following 11 June 2008–

(a) rhestr a disgrifiad o'r holl gamau a nodwyd yn y prosiect;

(b) amserlen ar gyfer gweithredu; ac

(c) amcangyfrif o'r cynllun arfaethedig i wella ansawdd aer a'r amser y disgwylir y bydd ei angen i gyflawni'r amcanion hyn.

**9**. Manylion y camau neu'r prosiectau sydd yn yr arfaeth neu yr ymchwilir iddynt ar gyfer yr hirdymor.

**10**. Rhestr o'r cyhoeddiadau, y dogfennau a'r gwaith etc. a ddefnyddir i ychwanegu at yr wybodaeth sy'n ofynnol gan yr Atodlen hon.

## ATODLEN 7

Rheoliad 23(2)

### Gwybodaeth i'r cyhoedd o ran trothwyon rhybuddio a gwybodaeth ar gyfer nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid ac osôn

**1**. Mewn achosion pan groesir naill ai'r trothwyon gwybodaeth neu rybuddio ar gyfer nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid neu osôn yn Atodlen 4, rhaid sicrhau bod y manylion a geir ym mharagraffau 3 i 6, o leiaf, ar gael i'r cyhoedd.

**2**. Mewn achosion pan ragfynegir y bydd y trothwyon gwybodaeth neu rybuddio ar gyfer un o'r llygryddion hynny yn Atodlen 4 yn cael eu croesi, rhaid darparu'r wybodaeth a geir ym mharagraffau 3 i 6, pan fo hynny'n ymarferol, fel pe bai cyfeiriadau at ormodiannau yn y paragraffau hynny'n gyfeiriadau at ormodiannau a ragfynegir.

**3**. Gwybodaeth ynghylch unrhyw achos lle y mae'r trothwyon gwybodaeth neu rybuddio wedi eu croesi–

(a) y lleoliad neu'r ardal lle y mae'r trothwyon wedi eu croesi;

(b) y math o drothwy sydd wedi ei groesi (trothwy gwybodaeth neu rybuddio);

(c) faint o'r gloch y cafodd y trothwy ei groesi ac am faint o amser y parodd y digwyddiad; ac

(ch) yn achos osôn, y crynodiad un awr ac wyth awr uchaf.

**4**. Y rhagolygon ar gyfer y prynhawn, y diwrnod a'r diwrnodau canlynol–

(a) yr ardal ddaearyddol lle y disgwylir y bydd trothwy gwybodaeth neu rybuddio yn cael ei groesi; a

(b) y newid a ddisgwylir o ran llygredd, hynny yw, gwelliant, sefydlogiad neu ddirywiad, a'r rhesymau dros y newid hwnnw.

**5**. Gwybodaeth am y math ar boblogaeth sydd dan sylw, effeithiau posibl ar iechyd a'r ymddygiad a argymhellir, yn arbennig–

(a) list and description of all the measures set out in the project;

(b) timetable for implementation; and

(c) estimate of the improvement of air quality planned and of the expected time required to attain these objectives.

**9**. Details of the measures or projects planned or being researched for the long term.

**10**. List of the publications, documents and work etc. used to supplement information required by this Schedule.

## SCHEDULE 7

Regulation 23(2)

### Public information in relation to alert and information thresholds for nitrogen dioxide, sulphur dioxide and ozone

**1**. In cases where either the information or the alert threshold for nitrogen dioxide, sulphur dioxide or ozone in Schedule 4 is exceeded the details set out in paragraphs 3 to 6, as a minimum, must be made available to the public.

**2**. In cases where either the information or the alert threshold for one of those pollutants in Schedule 4 is predicted to be exceeded, the information set out in paragraphs 3 to 6 must be provided where practicable, as though references to exceedances in those paragraphs were references to predicted exceedances.

**3**. Information on any incident where information or alert thresholds have been exceeded–

(a) the location or area where thresholds have been exceeded;

(b) the type of threshold exceeded (information or alert threshold);

(c) the time at which the threshold was exceeded and the duration of the incident; and

(d) in the case of ozone, the highest one hour and eight hour concentration.

**4**. Forecast for the following afternoon, day and days–

(a) the geographical area in which it is expected that an information or alert threshold will be exceeded; and

(b) the expected change in pollution, that is, improvement, stabilisation or deterioration, and the reasons for that change.

**5**. Information on the type of population concerned, possible health effects and recommended conduct, in particular–

(a) gwybodaeth am y grwpiau o'r boblogaeth sydd mewn perygl;

(b) disgrifiad o symptomau tebygol;

(c) rhagofalon yr argymhellir i'r boblogaeth dan sylw eu cymryd; ac

(ch) ymhle i gael rhagor o wybodaeth.

**6**. Gwybodaeth am y materion ychwanegol canlynol–

(a) gwybodaeth am gamau ataliol i ostwng llygredd neu i leihau'r cysylltiad ag ef;

(b) arwydd o'r prif sectorau ffynhonnell; ac

(c) argymhellion ar gyfer gweithredu i ostwng allyriadau.

(a) information on the population groups at risk;

(b) description of likely symptoms;

(c) recommended precautions to be taken by the population concerned; and

(d) where to find further information.

**6**. Information on the following additional matters–

(a) information on preventive action to reduce pollution or exposure to it;

(b) an indication of the main source sectors; and

(c) recommendations for action to reduce emissions.

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.